## Tabl Cynnwys


*Crynodeb Gweithredol* ..... *5*

*1. Cyflwyniad* ..... *10*

1.1 Y cyd-destun strategol ar gyfer digonolrwydd gofal plant ..... 10

1.2 Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017 - 2021 ..... 11

1.3 Y farchnad gofal plant o'i gymharu â'r asesiad o ddigonolrwydd diwethaf ..... 12

*2. Methodoleg* ..... *14*

2.1 Nodi materion demograffig ac economaidd-gymdeithasol allweddol ..... 15

2.2 Adrodd ar y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ..... 15

2.3 Arolwg Rhieni Llywodraeth Cymru ..... 15

2.4 Arolwg ar-lein gyda Phenaethiaid a Disgyblion ..... 16

2.5 Arolwg ar-lein gyda Budd-ddeiliaid a Chyflogwyr ..... 16

2.6 Dadansoddiad o'r Bylchau ac Argymhellion ..... 16

*3. Nodi Materion Demograffig ac Economaidd-Gymdeithasol Allweddol* ..... *17*

3.1 Amcanestyniad poblogaeth ar gyfer Sir y Fflint ..... 18

3.2 Y boblogaeth gyfredol ac amcanestyniadau o'r boblogaeth o blant a phobl ifanc sy'n byw yn Sir y Fflint ..... 18

3.3 Cyfraddau geni yn Sir y Fflint ..... 19

3.4 Ymfudo ..... 20

3.5 Ethnigrwydd yn Sir y Fflint ..... 20

3.6 Cyflogaeth ..... 21

3.7 Aelwydydd un rhiant ..... 22

3.8 Incwm cyfartalog aelwydydd ..... 23

3.9 Mynegai aelwydydd incwm isel ..... 23

3.10 Nifer y plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ..... 24

3.11 Data'r iaith Gymraeg ........ 24

3.12 Cynlluniau Tai ........ 24

3.13 Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac Asesiad o Anghenion Lles Lleol ........ 25

*4. Trosolwg o'r Ddarpariaeth Gofal Plant Bresennol a Chanlyniadau Arolygon Darparwyr a Gwarchodwyr Plant ........ 26*

4.1 Nifer y darparwyr gofal plant a'r math o wasanaeth ........ 26

4.2 Cyfnodau gweithredol arferol darparwyr ........ 27

4.3 Niferoedd ar restrau aros ........ 27

4.4 Niferoedd llefydd gwag ........ 28

4.5 Cefnogaeth ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a/neu anghenon meddygol cymhleth ........ 29

4.6 Costau gofal plant ........ 31

4.7 Oriau agor ........ 34

4.8 Cyflenwad o leoedd i blant rhwng 3 a 4 oed drwy'r Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg 34

4.9 Darpariaeth Gymraeg ........ 35

4.10 Effaith COVID-19 ar alw a digonolrwydd ........ 38

4.11 Trefniadau Trawsffiniol ........ 40

4.12 Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu ........ 40

4.13 Ansawdd y Ddarpariaeth ........ 45

4.14 Canfyddiadau gan ddarparwyr a Nanis anghofrestredig ........ 45

4.15 Prif ganfyddiadau gan ddarparwyr ........ 46

*5. Canlyniadau'r Arolwg Rhieni ........ 48*

5.1 Cyd-destun ........ 48

5.2 Nodweddion economaidd-gymdeithasol y rhieni a ymatebodd ........ 48

5.3 Defnydd cyfredol o ofal plant ........ 50

5.4 Galw am ofal plant i'r dyfodol ........ 60

5.5 Prif ganfyddiadau o'r arolwg rhieni ........ 62

*6. Canlyniadau Arolygon Ysgol ........ 63*

6.1 Cyd-destun ........ 63

6.2 Arolwg ysgolion cynradd ........ 63

6.3 Arolwg ysgolion uwchradd ........ 64

6.4 Arolwg Ysgolion a Cholegau Addysg Bellach ........ 68

6.5 Canfyddiadau allweddol mewn perthynas ag ysgolion ........ 70

*7. Canlyniadau Arolygon Budd-ddeiliaid a Chyflogwyr ........ 71*

7.1 Cyd-destun ........ 71

7.2 Arolygon budd-ddeiliaid ........ 71

7.3 Arolygon Partneriaid CWLWM ........ 76

7.4 Holiadur Cyflogwyr ........ 79

7.5 Arolwg y tîm cyflogadwyedd ........ 84

7.6 Canfyddiadau allweddol gan fudd-ddeiliaid a chyflogwyr ........ 85

*8. Dadansoddiad o'r Bylchau a Meysydd ar gyfer Gwella ........ 87*

8.1 Bylchau sy'n dod i'r amlwg ........ 87

8.2 Camau gweithredu awgrymedig ........ 87

*9. Cynllun Gweithredu ........ 88*

*Atodiad 1: Crynodeb o'r Canfyddiadau Allweddol ........ 93*

*Atodiad 2: Tablau ........ 96*

# Crynodeb Gweithredol

Mae Deddf Plant 2006 yn ymhelaethu ac yn egluro mewn deddfwriaeth y rôl hanfodol mae awdurdodau lleol yn ei chwarae fel arweinwyr strategol er mwyn darparu gofal plant yn lleol. Mae'n gyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol i arwain ymdrech cydlynol ar draws gwasanaethau i siapio a sicrhau gwasanaethau i blant, gan ganolbwyntio'n arbennig ar:

- Ofal plant digonol, cynaliadwy a hyblyg, sy'n ymateb i anghenion rhieni
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n berthnasol i ofal plant i rieni a'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhianta neu'n gofalu am blentyn

Mae rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru dan Adran 26 yn y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgymryd ag Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn eu hardal. Cynhaliodd Cyngor Sir y Fflint Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mawrth 2022, gyda chefnogaeth Grŵp Cynghori Premier. Roedd yr asesiad yn seiliedig ar ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd drwy nifer o ffurflenni ymgynghori, gan gynnwys Hunanasesiad Arolygiaeth Gofal Cymru o ddata'r Datganiad Gwasanaeth a gwblhawyd gan ddarparwyr gofal plant, arolwg rhieni Llywodraeth Cymru ac arolygon ar-lein gyda chyflogwyr, budd-ddeiliaid, gan gynnwys disgyblion a phenaethiaid.

Mae'r Asesiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn adlewyrchu'r cyd-destun penodol ar gyfer darpariaeth gofal plant yn Sir y Fflint, ac wedi'i alinio â'r 7 ardal gymunedol neu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch yn y sir. Gellir dod o hyd i grynodeb o ganfyddiadau allweddol yr ymchwil a'r ymgynghoriad demograffeg yn Atodiad 1.

**Trosolwg o gyd-destun demograffig ac economaidd yr awdurdod lleol**

Er mwyn ystyried y graddau y bydd yn rhaid i gynllunwyr gofal plant yn Sir y Fflint barhau i flaenoriaethu eu gallu i helpu i greu neu ysgogi rhagor o lefydd gofal plant o fewn ardaloedd daearyddol arbennig ac wedi'u targedu, cynhaliwyd dadansoddiad o'r cyd-destun demograffig ac economaidd.

Sir y Fflint sydd â'r boblogaeth ddwysaf o'r 6 awdurdod lleol yn rhanbarth Gogledd Cymru. Mae'r data poblogaeth diweddaraf ar gyfer plant rhwng 0 a 4 oed gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos y bydd nifer y plant a ragwelir yn y grŵp oedran hwn yn gostwng yn raddol ar draws Sir y Fflint rhwng 2020 a 2026. Mae'r gostyngiad hwn a ragwelir yn nifer y plant rhwng 0 a 4 oed yn Sir y Fflint yn annodweddiadol ar draws Cymru neu weddill y Deyrnas Unedig.

Mae gan rai clystyrau yn Sir y Fflint lefel llawer uwch o ddiweithdra a phlant mewn aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra o'i gymharu ag eraill. Er enghraifft, Ardal Gymunedol 5 sydd â'r nifer uchaf o blant yn byw mewn aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra yn ogystal â'r canran uchaf o blant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel absoliwt ar draws Sir y Fflint. Ardal Gymunedol 7 ar y llaw arall sydd â'r nifer isaf o blant yn byw mewn aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra, a'r canran isaf o blant yn byw mewn teuluoedd incwm isel absoliwt.

Yn ôl data gan Stats Cymru, mae 23.2% o boblogaeth Sir y Fflint yn disgrifio eu hunain fel siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae ethnigrwydd plant yn Sir y Fflint yn unol â'r cyfartaledd yng Nghymru yn ôl cyfrifiad cenedlaethol 2011, gyda 10% o blant 5 oed neu hŷn yn Sir y Fflint yn nodi eu bod o gefndir Prydeinig heb fod yn wyn.


Mae'n bosibl y bydd effeithiau COVID-19 a Brexit yn arwain at ostyngiad yn nifer y bobl sy'n dod i Gymru yn ogystal â chynnydd yn nifer y bobl sy'n gadael yn hytrach na dod i mewn, gan arwain at fudo net negyddol. Mae nifer o resymau posibl dros hyn. I ddechrau, mae Arsyllfa Fudol Rhydychen yn nodi bod System Fewnfudo ar sail Pwyntiau newydd y DU, sy'n rhoi rhagor o gyfyngiadau ar nifer y gweithwyr UE sgiliau is a gaiff eu gadael i mewn i'r DU, yn debygol o gyfrannu at ostyngiad mewn mudo, a allai gael effaith ar awdurdodau lleol megis Sir y Fflint.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint yn cynnig datblygiad o 7,000 o gartrefi newydd dros gyfnod y Cynllun (2015 – 2030). Er efallai na fydd datblygiad tai o'r raddfa hon yn arwain at gynnydd sylweddol mewn galw am ofal plant ar draws Sir y Fflint, pan fo datblygiadau sylweddol yn debygol o ddenu teuluoedd gyda phlant ifanc, mae'n rhaid cynnal trafodaethau o fewn yr awdurdod lleol i sicrhau bod yr effaith ar y farchnad gofal plant yn cael ei hasesu.

Canfuwyd bod gan 2.94% o blant yn Sir y Fflint Angen Dysgu Ychwanegol o ryw fath, roedd y ffigwr hwn yn uwch na'r ffigwr yn yr awdurdod cyfagos, Sir Ddinbych, ond yn is na'r ffigwr yn Wrecsam a'r Cyfartaledd Cenedlaethol.

**<u>Crynodeb o lefel y ddarpariaeth</u>**

Pan gwblhawyd y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, roedd lefel y cyflenwad gofal plant yn Sir y Fflint fel a ganlyn:



| Math o Ofal plant | Wedi cofrestru | Wedi'i atal | Heb gofrestru / Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol |
|---|---|---|---|
| Lleoliadau Gofal Diwrnod | 55 | 0 | 0 |
| Gwarchodwyr Plant | 91 | 0 | 0 |
| Gofal y Tu Allan i'r Ysgol[1] | 36 | 0 | 9 |
| Gofal Dydd Sesiynol | 19 | 0 | 0 |
| Meithrinfa | 3 | 0 | 0 |
| Nanis | 0 | 0 | 4 |
| Darpariaeth Chwarae | 0 | 0 | 55 |
| **Cyfanswm** | **198** | **0** | **68** |

**Y prif bwyntiau o ran y defnydd cyfredol / galw i'r dyfodol**

Yn ôl canfyddiadau data Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth 2021, mae nifer uchel o lefydd gofal plant gwag ar draws ardaloedd arbennig, megis Ardaloedd Cymunedol 1, 4 a 7. Y darparwyr gofal plant â'r nifer uchaf o lefydd gwag oedd darparwyr gofal diwrnod llawn a chlybiau ar ôl yr ysgol. Yn ystod tymor yr hydref 2021, ychydig iawn o ddarparwyr oedd â rhestrau aros ar draws y sir, Ardaloedd Cymunedol 1 a 2, a lleoliadau gofal diwrnod llawn neu ofal cyn ysgol oedd â'r rhestrau aros hiraf.

Mae'r mwyafrif o ddarparwyr gofal plant yn darparu'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant rhwng 3 a 4 oed ac mae 33 o ddarparwyr yn derbyn cyllid i gynnig darpariaeth Dechrau'n Deg ar hyn o bryd. Mae'r mwyafrif o ddarpariaethau gofal plant ansawdd uchel wedi'u lleoli yn Ardal Gymunedol 1. Mae llai o ddarparwyr yn Ardaloedd Cymunedol 3 a 7 sydd wedi derbyn sgôr o Ardderchog mewn 3 neu fwy o feysydd.

Mae 4.3% o leoliadau yn Sir y Fflint yn rhai cyfrwng Cymraeg yn bennaf ar hyn o bryd. Mae'r lleoliadau hyn wedi'u lleoli ym Mwcle - Gorllewin Bistre, Ffynnongroyw, Canol Treffynnon, Yr Wyddgrug - Broncoed, Gorllewin Shotton, y Fflint a Threuddyn. Nid oes unrhyw leoliadau gofal plant yn cael eu darparu drwy gyfwng y Gymraeg yn bennaf yn Ardaloedd Cymunedol 6 a 7.

[1]Mae gofal y tu allan i'r ysgol yn cynnwys clybiau cyn ysgol, clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau

Ardaloedd Cymunedol 2 a 3 sydd â'r nifer uchaf o blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael mynediad at ofal plant ar hyn o bryd. Mae'r mwyafrif o ddarparwyr wedi'u hyfforddi neu'n gymwys i ofalu am blant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae 46% o ddarparwyr gofal plant yn cynnig gofal cyn ysgol ar hyn o bryd, ac ychydig iawn cyn 8am. Ar hyn o bryd, dim ond 2% o ddarparwyr sy'n cynnig gofal plant gyda'r nos ar ôl 6pm, mae'r rhain wedi'u lleoli yng Nghanol Cei Connah a De Brychdyn. Mae 1.4% o ddarparwyr yn darparu gofal dros nos yn y sir ar hyn o bryd; mae'r rhain i gyd yn warchodwyr plant wedi'u lleoli yng Nghanol Cei Connah. Mae 2.5% o ddarparwyr yn darparu gofal plant ar benwythnosau ar hyn o bryd, ac mae'r rhain wedi'u lleoli yng Nghanol Cei Connah, Cei Connah - Golftyn a De Brychdyn.

Mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar wasanaethau yn gyffredinol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda busnesau dianghenraid yn cau a phobl yn gweithio o adref. Bu'n rhaid i nifer o ddarparwyr gofal plant gau yn ystod y pandemig, ac er eu bod bellach wedi ailagor, bydd y lleihad o ran nifer a galw dros y cyfnod hwn yn parhau i gael effaith ar y rhai sy'n darparu gwasanaethau am beth amser. Roedd bron i 10% o ddarparwyr yn teimlo bod COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar eu busnes, i'r fath raddau na fyddent yn gallu parhau â gofal plant ymhen 6 mis. Nid oedd nifer o ddarparwyr yn siŵr pa effaith roedd y pandemig wedi'i chael ar gynaliadwyedd ariannol ar adeg casglu'r data. Nododd nifer o ddarparwyr hefyd bod diffyg hyfforddiant digonol yn ystod y pandemig, yn bennaf yn sgil diffyg argaeledd.

**<u>Y prif rwystrau i ddarpariaeth gofal plant a mynediad at ofal plant</u>**

Nododd 3.8% o rieni a gwblhaodd arolwg Llywodraeth Cymru eu bod yn wynebu rhwystrau i gael mynediad at ofal plant. Y prif rwystrau a nodwyd oedd argaeledd a phellter gofal plant.

Mae diffyg mathau, fforddiadwyedd, hyblygrwydd a lleoliadau gwahanol yn broblemau allweddol sy'n wynebu teuluoedd sydd â phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ar gyfer teuluoedd sy'n siarad Cymraeg, soniwyd bod diffyg mathau o ofal plant, diffyg hyblygrwydd a diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhwystrau allweddol i ddarpariaeth gofal plant. Roedd budd-ddeiliaid hefyd yn teimlo y gellid cynnwys rhieni/gofalwyr yn well mewn gwaith ymgynghorol i wella gwasanaethau gofal plant a gwaredu'r rhwystrau hyn i fynediad at ofal plant yn y sir.

Derbyniwyd 400 o ymatebion gan rieni/gofalwyr ar draws Cyngor Sir y Fflint. Er bod nifer y rhieni/gofalwyr sydd wedi ymateb wedi cynyddu 77% ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf, dim ond cyfran fechan o'r rhieni/gofalwyr sy'n byw yn y sir a gaiff eu cynrychioli gan yr ymatebwyr ac felly dylid cydnabod cyfyngiadau'r data.

**<u>Bylchau / anghenion nas diwallwyd</u>**

Drwy'r gwaith ymchwil a gwblhawyd drwy gydol yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, nodwyd y bylchau canlynol yn y sector gofal plant yn Sir y Fflint. Datblygwyd Cynllun Gweithredu ar ôl y cyfnod ymgynghorol sy'n mynd i'r afael â'r bylchau hyn a chynhwysir crynodeb o'r camau gweithredu arfaethedig.

**Darpariaeth ansawdd uchel, gyda chostau'n mynd yn rhy uchel i rai rhieni**

Er bod y mwyafrif helaeth o rieni/gofalwyr ar draws Sir y Fflint wedi sgorio'r ddarpariaeth gofal plant yn uchel iawn, roedd nifer o rieni'n cael trafferth ymdopi â'r costau.  Mae costau gofal plant yn arbennig o uchel yn Ardaloedd Cymunedol 5 a 7 . Mae'n bosibl bod hyn wedi cael effaith ar deuluoedd o gefndiroedd difreintiedig yn arbennig.  Er bod rhieni wedi crybwyll y costau uchel sydd ynghlwm â gofal plant, nododd y mwyafrif o ddarparwyr bod rhieni eisoes yn cael mynediad at Ofal Plant Di-dreth a Thalebau Gofal Plant ar gyfer eu lleoliadau.  Mae'r mwyafrif o ddarparwyr gofal plant yn darparu'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant rhwng 3 a 4 oed ac mae 33 o ddarparwyr yn Sir y Fflint yn cynnig llefydd Dechrau'n Deg ar hyn o bryd.  Fodd bynnag, nododd y mwyafrif o rieni nad oeddent yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth Dechrau'n Deg neu nad oeddent yn ei defnyddio gan nad ydynt yn byw o fewn yr ardaloedd cod post cymwys.

**Nifer uchel o lefydd gwag, ond heb ddigon o oriau**

Mae dros 5,000 o lefydd gofal plant gwag ar draws Sir y Fflint ar hyn o bryd, yn arbennig mewn lleoliadau gofal diwrnod llawn a chlybiau ar ôl ysgol.  Fodd bynnag, ychydig iawn o ddarparwyr sy'n cynnig gofal plant cyn 7:30am neu ar ôl 6pm, ac nid oes digon ohonynt ar gael yn ystod gwyliau ysgol.  Nododd y rhieni hefyd bod diffyg darpariaeth yn ystod gwyliau ysgol a gofal estynedig, a'u bod yn cael trafferth parhau â'u patrymau gwaith arferol neu waith llawn amser o ganlyniad.

**Effaith y pandemig**

Nododd nifer o ddarparwyr nad oeddent yn gallu cael mynediad at hyfforddiant yn ystod y pandemig, ac roedd bron i 10% o ddarparwyr yn teimlo na fyddent yn gallu cynnal eu busnes yn ariannol ymhen 6 mis.  Roedd nifer o ddarparwyr yn ansicr am gynaliadwyedd eu darpariaeth gofal plant i'r dyfodol.  Fe wnaeth plant a phobl ifanc hefyd nodi effaith y pandemig ar eu clybiau ar ôl ysgol.  Bydd pob sector yn teimlo effaith y pandemig am gyfnod hir, ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ddarparwyr gael mynediad at hyfforddiant, adnoddau neu gyllid ychwanegol er mwyn sicrhau nad yw hyn yn cael effaith negyddol ar y sector gofal plant yn Sir y Fflint.

**Diffyg Darpariaeth Gymraeg**

Dim ond 4.3% o ddarparwyr sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg yn Sir y Fflint ar hyn o bryd, ar draws 7 ward yn unig.  Nododd y darparwyr hefyd bod llai na 20% o staff yn siarad Cymraeg yn rhugl, a llai na 40% o staff yn siarad rhywfaint o Gymraeg.  Fe allai hyn greu rhwystr i fynediad at ofal plant ar gyfer teuluoedd sy'n siarad Cymraeg y tu allan i'r 7 ward hyn.

# 1. Cyflwyniad

Comisiynwyd Grŵp Cynghori Premier i ddarparu Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ar gyfer Cyngor Sir y Fflint ym mis Rhagfyr 2021. Comisiynwyd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant i ddiweddaru canfyddiadau Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017 yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Roedd yr asesiad yn seiliedig ar ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd drwy nifer o ddulliau ymgynghori, data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a gwblhawyd gan ddarparwyr gofal plant, arolygon ar-lein gyda chyflogwyr, rhieni, budd-ddeiliaid ac ysgolion.

Mae'r adroddiad hwn ar yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn adlewyrchu'r cyd-destun penodol ar gyfer darpariaeth gofal plant yn Sir y Fflint rhwng tymor yr Hydref 2021 a thymor y Gwanwyn 2022. O ystyried hyn, mae'r adroddiad hwn yn ystyried yn benodol y cyd-destun lleol yn Sir y Fflint ac yn ceisio deall anghenion lleoliadau gofal plant, yn ogystal â galw rhieni am leoedd ar lefel leol.

## 1.1 Y cyd-destun strategol ar gyfer digonolrwydd gofal plant

Fel un o ofynion Rheoliad Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiad Awdurdod Lleol)(Cymru) 2016, mae awdurdodau lleol yn paratoi asesiadau o ddigonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant (Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant) yn eu hardal bob pum mlynedd ac mae gofyn iddynt barhau i adolygu'r asesiadau hyn.

Mae'r Ddeddf hon yn ymhelaethu ac yn egluro mewn deddfwriaeth y rôl hanfodol mae awdurdodau lleol yn ei chwarae fel arweinwyr strategol er mwyn darparu gofal plant yn lleol. Mae Deddf 2006 yn atgyfnerthu'r fframwaith y mae awdurdodau lleol eisoes yn ei dilyn - mewn partneriaeth â'r sector preifat, gwirfoddol, annibynnol, cymunedol ac a gynhelir - i siapio a sicrhau gwasanaethau plant a chanolbwyntio'n benodol ar ddarparu gofal plant digonol, cynaliadwy a hyblyg sy'n ymateb i anghenion rhieni. Mae angen cymryd y cam hwn er mwyn sicrhau darpariaeth gofal plant digonol, a galluogi awdurdodau lleol i nodi bylchau a sefydlu cynlluniau gweithredu i fodloni anghenion gofal plant rhieni sydd angen gweithio neu hyfforddi.

Yn dilyn llacio cyfyngiadau COVID-19 cenedlaethol o ddiwedd 2021, mae nifer o ddarparwyr gofal plant wedi dychwelyd i'w swyddogaethau arferol gan gymryd gofal yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. O dyddiad yr adroddiad hwn y cwestiwn allweddol ar gyfer y sector gofal plant fydd i ba raddau fydd y galw am ofal plant yn adfer, a phryd fydd pethau'n dychwelyd i normalrwydd llwyr, nawr bod cefnogaeth llywodraeth yn cael ei ddiddymu'n raddol. Mae'n bwysig cydnabod y bydd nifer o ddarparwyr yn cynyddu ffioedd ac yn addasu eu dulliau busnes er mwyn lleihau costau, neu adael y farchnad yn llwyr er mwyn ymdrin â'r risgiau tymor byr a thymor canolig hyn.

Mae cynnydd wedi bod yn y galw am ofal plant, gan fod rhieni a gofalwyr wedi cael trafferth sicrhau digon o lefydd gofal plant, yn arbennig y tu allan i oriau ysgol i gyd-fynd â'u swyddi.

Mae arwyddion bod y sector yng Nghymru yn sefydlogi ac yn adfer o'r gwaethaf o'r pandemig. Adlewyrchir hyn yn yr asesiad lle nododd y mwyafrif o ddarparwyr nad ydynt yn credu y bydd yr

effaith yn para mwy na 12 mis a chredir bod COVID-19 wedi arwain at batrymau newydd o ran y galw am ofal plant, yn sgil y newidiadau ehangach y mae'r pandemig wedi'u cyflwyno i bob agwedd o fywyd teuluol.

Mae'r asesiad wedi rhoi darlun i Gyngor Sir y Fflint o'r sefyllfa bresennol o ran y cyflenwad a'r galw am ofal plant ac mae unrhyw feysydd amlwg i'w gwella wedi ffurfio sail i'r cynllun gweithredu y bydd yr awdurdod yn ei roi ar waith er mwyn gwella'r sector gofal plant.

### 1.2 Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017 - 2021

Rhwng tymor yr Hydref 2016 a thymor y Gwanwyn 2017, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori er mwyn canfod barn rhieni a gofalwyr yn Sir y Fflint mewn perthynas â gofal plant. Drwy gymysgedd o waith allgymorth a chwestiynau strwythuredig, ceisiwyd barn rhieni a gofalwyr mewn perthynas ag argaeledd a hygyrchedd gofal plant.

Cyhoeddwyd arolwg electronig i rieni bob plentyn yn Sir y Fflint drwy ysgolion, drwy ddarpariaeth gofal plant bresennol, y wasg leol, gwefan a chyfrif Twitter y Cyngor Sir, ystod o rwydweithiau grŵp lleiafrifol, gweithwyr lleol ac mewn lleoliadau eraill lle mae rhieni'n cyfarfod. Derbyniwyd 133 o ymatebion i'r holiadur Survey Monkey ar-lein. Cynhaliwyd ymgynghoriadau wyneb yn wyneb pellach gan ddefnyddio Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint, ymweliadau allgymorth i grwpiau rhieni a babanod, canolfannau integredig, grwpiau dysgu fel teulu mewn ysgolion a grwpiau cyn ysgol. O ganlyniad, cwblhaodd 38 o rieni'r arolwg ar gopïau caled a'u dychwelyd drwy'r post. Targedwyd rhieni mewn ardaloedd mwy difreintiedig a grwpiau lleiafrifol (megis rhieni plant anabl) gan y credwyd y byddai llai o rieni yn yr ardaloedd a'r grwpiau hyn yn dychwelyd yr arolygon.

Gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru gwblhau ffurflen Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ar-lein. Gofynnwyd i leoliadau a oedd yn darparu gofal yn ystod y tymor gwblhau'r ffurflen yn ystod yr wythnos 11-15 Gorffennaf 2016 a gofynnwyd i ddarparwyr gofal yn ystod y gwyliau gwblhau'r ffurflen yn ystod yr wythnos 1-5 Awst 2016. Llenwodd 77.1% o ddarparwyr gofal plant cofrestredig yn Sir y Fflint y ffurflen ar-lein.

Y brif her o ran cwblhau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hwn oedd sicrhau cysondeb y data. Yn anffodus, ni chafwyd llawer o ymateb i'r holiadur rhieni, a nodwyd yn yr adborth bod y fformat yn hir ac yn ailadroddus. Cyfradd ymateb darparwyr gofal plant Sir y Fflint i arolwg ar-lein y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth oedd 76%, gwelliant sylweddol ar y cyfraddau blaenorol. Er hynny, nid yw'r data sydd wedi'i gynnwys yn yr atodiadau'n gyflawn gan fod nifer o ddarparwyr wedi methu rhai cwestiynau o fewn y ffurflen Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ac mae'n amlwg mewn rhai achosion eu bod wedi camddehongli'r cwestiynau ac wedi darparu atebion sy'n gwrthdaro.

Prif ganfyddiadau ac argymhellion Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017 oedd:

- Ni chredwyd bod gofal plant yn ddigon hyblyg, yn arbennig i'r rheiny sy'n gweithio oriau annodweddiadol, megis pobl sy'n gweithio sifftiau neu dros nos neu ar benwythnosau. Fodd

bynnag, mae amrywiaeth dda o warchodwyr plant ar draws Sir y Fflint ac ystod eang o wasanaethau'n darparu llefydd gofal plant ar sail ran-amser ac ad-hoc. Yn ôl data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, mae darpariaeth ar gyfer rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol yn brin iawn, gyda'r cynharaf yn agor am 7:00am a'r hwyraf yn cau am 7:00pm, mae diffyg darpariaeth gofal dros nos.

- Nid oes unrhyw warchodwyr plant cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint a dim ond 29% ohonynt sydd â rhai elfennau dwyieithog i'w darpariaeth. Nid oes unrhyw Feithrinfeydd Gofal Dydd na meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg chwaith, a dim ond ychydig o ddarpariaethau chwarae mynediad agored cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae bob un o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn cynnal clybiau ar ôl ysgol. Wrth werthuso'r galw am ofal plant, ymddengys nad oedd llawer o alw am ddarpariaeth Gymraeg.
- Darpariaeth y tu allan i'r ysgol sy'n darparu'r gyfradd uchaf o lefydd gofal plant ar sail ran amser ac ad-hoc, fodd bynnag, gallai hyn arwain at bryderon mewn perthynas â chynaliadwyedd wrth i leoliadau gael trafferth rheoli cyfraddau presenoldeb newidiol.
- Mae fforddiadwyedd yn rhwystr ar gyfer teuluoedd incwm isel. 'Mae gofal plant yn rhy ddrud' oedd un o'r rhesymau mwyaf poblogaidd pan ofynnwyd yn yr arolwg pam nad yw rhieni'n defnyddio gofal plant, ac roedd 79% o'r rheiny a oedd yn ymateb i'r gwelliannau sydd eu hangen yn y maes gofal plant yn cytuno. Mae angen sicrhau bod rhagor o wybodaeth ar gael, gan nad oedd traean o'r ymatebwyr yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am gymorth ariannol.
- Mae'r mwyafrif o ddarparwyr yn gynhwysol, caiff plant ag anghenion addysgol arbennig a/neu anabledd eu cefnogi i gael mynediad at leoliadau gofal plant ar draws yr awdurdod.

### 1.3 Y farchnad gofal plant o'i gymharu â'r asesiad o ddigonolrwydd diwethaf

Ers yr asesiad o ddigonolrwydd diwethaf, mae Sir y Fflint wedi nodi bod y darparwyr canlynol yn darparu gwasanaethau yn y sector ar hyn o bryd (Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru 2021):

- Lleoliadau Gofal Diwrnod Llawn: 55
- Gwarchodwyr Plant: 91
- Darpariaeth y tu allan i'r ysgol: 36
- Gofal Dydd Sesiynol: 19
- Meithrinfa: 3
- Nanis: 4

**Gofal Plant a Ariennir yng Nghymru**

Yng Nghymru, mae amrywiaeth o gyllid ar gael i helpu rhieni/gofalwyr â chostau gofal plant. Mae'r rhestr isod yn amlinellu'r mathau gwahanol o gyllid sydd ar gael ar draws Cymru.

**Addysg Gynnar (a elwir hefyd yn 'Feithrinfa Cyfnod Sylfaen'**

*Hyd at 12.5 awr yr wythnos i blant rhwng 3 a 4 oed*

Mae gan bob plentyn rhwng 3 a 4 oed hawl i dderbyn hyd at 5 tymor o addysg Blynyddoedd Cynnar rhan amser cyn dechrau addysg orfodol. Cynigir hyn i gymysgedd o leoliadau a ariennir, gan gynnwys grwpiau chwarae, Cylch Meithrin, ysgolion a meithrinfeydd dydd.

**Cynnig Gofal Plant i Gymru**

*Hyd at 20 awr ychwanegol yr wythnos i blant rhwng 3 a 4 oed*

Mae rhai plant yn gymwys i dderbyn hyd at 20 awr yr wythnos o ofal plant wedi'i ariannu o ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed a gofal plant ychwanegol yn ystod gwyliau ysgol. Gall rhieni/gofalwyr wirio a ydynt yn gymwys drwy ymweld â: https://llyw.cymru/gwneud-cais-am-gynnig-gofal-plant-cymru.

**Dechrau'n Deg**

Mae rhai plant 2 oed yng Nghymru yn derbyn 12.5 awr yr wythnos o ofal plant wedi'i ariannu fel rhan o'r cynllun Dechrau'n Deg. Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant o ansawdd uchel i rieni/gofalwyr plant cymwys am 2.5 awr y diwrnod, 5 diwrnod yr wythnos am 39 wythnos o'r flwyddyn. Mae'n rhaid i blant cymwys fyw mewn ardal Dechrau'n Deg i dderbyn y cyllid hwn, a gaiff ei bennu gan ardaloedd daearyddol, a darperir cyllid wedi'i dargedu i rai plant ag angen wedi'i ddiffinio a'i nodi drwy gytundeb amlasiantaeth.

**Elfen Gofal Plant o'r Credyd Cynhwysol**

Mae'n bosibl y bydd rhieni/gofalwyr yn gallu hawlio hyd at 85% o gostau gofal plant yn ôl os ydynt yn gymwys am Gredyd Cynhwysol. Fel arfer, bydd yn rhaid i ymgeiswyr fod yn gweithio neu fod wedi cael cynnig swydd.

**Gofal Plant Di-Dreth**

Pan fydd rhieni/gofalwyr yn cofrestru ar gyfer cyfrif gofal plant di-dreth, am bob £8 y maent yn ei dalu i mewn, bydd y llywodraeth yn talu £2 i'r darparwr gofal plant. Gall rhieni/gofalwyr gael hyd at £500 bob tri mis (hyd at £2,000 y flwyddyn) ar gyfer bob plentyn i'w helpu gyda chostau gofal plant.

**Cymorth i Fyfyrwyr**


Os yw rhiant/gofalwr yn mynychu cwrs llawn amser neu ran-amser ac yn derbyn cyllid myfyriwr israddedig ac ag o leiaf 1 plentyn dan 15 oed sy'n ddibynnol yn ariannol arnynt (neu dan 17 os oes ganddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol), mae'n bosibl y byddant yn gymwys i dderbyn y grant gofal plant a Lwfans Dysgu i Rieni drwy Gyllid Myfyrwyr Cymru.

## 2. Methodoleg

Cynhaliwyd y gwaith maes a’r gwaith ymchwil sydd wedi llywio Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Cyngor Sir y Fflint 2022 yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2021 a mis Chwefror 2022. Mae’r adroddiad hwn yn cynnig cipolwg o ofal plant yn Sir y Fflint yn dilyn tymor y Gwanwyn 2022.

Er mwyn galluogi dadansoddiad ystyrlon o ardaloedd o fewn Sir y Fflint, mae gwaith ymchwil yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant wedi’i alinio â’r 7 ardal gymunedol sydd hefyd wedi’u defnyddio yn yr Asesiad Lles Lleol. Diffiniwyd yr ardaloedd hyn yn fras drwy ystyried ffiniau wardiau cynghorau tref a chymuned a’u grwpio yn ôl eu cysylltiad naturiol gyda’i gilydd.

**<u>Map o’r ardaloedd cymunedol yn Sir y Fflint</u>**




Cwblhawyd sawl math o waith ymchwil a dadansoddi drwy’r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, fel y nodir isod.

## 2.1 Nodi materion demograffig ac economaidd-gymdeithasol allweddol

Cynhaliwyd gwaith ymchwil desg strwythuredig er mwyn nodi ffactorau demograffig ac economaidd-gymdeithasol allweddol a fydd yn cael dylanwad amlwg ar ddigonolrwydd a chynaliadwyedd darpariaeth gofal plant blynyddoedd cynnar a gofal plant wedi'i ariannu ar draws Sir y Fflint nawr ac i'r dyfodol. Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar:

- Amcangyfrif o blant rhwng 0 ac 14 oed sy'n byw yn Sir y Fflint.
- Nifer y plant a ddisgwylir i fod yn byw yn Sir y Fflint erbyn 2026 a chyfraddau geni lleol
- Tueddiadau ymfudo ac allfudo rhyngwladol a mewnol
- Niferoedd cyflogaeth a diweithdra ar draws wardiau Sir y Fflint.
- Nifer y plant yn Sir y Fflint sy'n byw mewn aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra ac aelwydydd incwm isel
- Cyfansoddiad teuluol presennol ac amcanol ar draws y sir
- Incwm cyfartalog aelwydydd fesul ward ac Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganolig
- Ethnigrwydd plant dros 5 oed
- Nifer y plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Data'r iaith Gymraeg a darpariaeth lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg

Lle bo modd, mae'r data wedi cael ei grynhoi fesul ward neu Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganolig er mwyn nodi'r cyflenwad a'r galw ar lefel leol. Defnyddiwyd ystod o ffynonellau i gynnal y gwaith ymchwil, gan gynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Stats Cymru, yr Adran Addysg a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

## 2.2 Adrodd ar y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth

Dadansoddodd Grŵp Cynghori Premier ddata'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a data'r arolwg rhieni a ddarparwyd gan Gyngor Sir y Fflint i nodi tueddiadau ac ymgorffori data yn ein dadansoddiad a'n cynllun gweithredu ehangach. Cynhaliodd Grŵp Cynghori Premier ddadansoddiad manwl o'r data cyflenwi byw a gedwir gan Gyngor Sir y Fflint i bennu ffigurau manwl ar gyfer argaeledd llefydd gofal plant yn yr ardal leol. Yn ogystal â hynny, drwy gyfuno data gan leoliadau gofal plant a'n gwaith ymchwil demograffig, rydym wedi nodi mannau cul yn y system, o ran wardiau/Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is lle mae'r galw/cyflenwad yn brin ac ardaloedd sydd â lefelau uchel o blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

## 2.3 Arolwg Rhieni Llywodraeth Cymru

Mae'r Asesiad hwn o Ddigonolrwydd Gofal Plant hefyd yn ystyried y galw am ofal plant drwy ddadansoddi anghenion rhieni/gofalwyr, a nodwyd drwy arolwg a gwblhawyd gan Lywodraeth Cymru drwy SmartSurvey ar lefel awdurdod lleol. Dadansoddwyd yr ymatebion, gan fanylu ar dueddiadau o ran hygyrchedd, fforddiadwyedd a hyblygrwydd gofal plant ar gyfer rhieni ar draws y sir.

### 2.4 Arolwg ar-lein gyda Phenaethiaid a Disgyblion

Creodd Grŵp Cynghori Premier arolwg ar-lein sy'n addas i blant ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd. Roedd yr arolwg yn holi plant a phobl ifanc am ddarpariaeth ar ôl ysgol, gan ganolbwyntio'n benodol ar fynediad, argaeledd a ph'un a oedd yr opsiynau yr oeddent yn eu ffafrio ar gael. Darparwyd arolygon i golegau Addysg Bellach hefyd, gyda chwestiynau am ofal estynedig gan gynnwys clybiau brecwast a darpariaeth ar ôl ysgol. Yn olaf, paratôdd yr awdurdod lleol becyn ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar gyfer ysgolion cynradd a darparwyr y tu allan i'r ysgol yn Sir y Fflint. Roedd y pecyn yn cynnwys gweithgareddau amrywiol i'w cwblhau yn y dosbarth neu yn y clwb gyda disgyblion. Ar ôl i'r ysgolion / clybiau gwblhau'r gweithgareddau, darparwyd taflen iddynt ei llenwi a'i hanfon at Grŵp Cynghori Premier, yn manylu ar ymatebion o'r gweithgareddau.

### 2.5 Arolwg ar-lein gyda Budd-ddeiliaid a Chyflogwyr

Ymgynghorodd Grŵp Cynghori Premier a Chyngor Sir y Fflint gydag ystod o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys pobl sydd â diddordeb mewn gofal plant a'u cynrychiolwyr, cyflogwyr lleol ac unigolion sy'n eu cynrychioli nhw a sefydliadau cyflogwyr ac awdurdodau lleol cyfagos, i gasglu eu barn ar yr economi lleol a'r rhwystrau i ofal plant a allai gael effaith ar y gweithlu a'r tueddiadau sydd wedi dod i'r amlwg dros y blynyddoedd diwethaf. Ymgynghorwyd ag ystod o gyflogwyr ar draws diwydiannau amrywiol er mwyn sicrhau gymaint o gynrychiolaeth â phosibl yn y sampl o fewn yr amserlen.

Ymgynghorwyd â budd-ddeiliaid a chyflogwyr drwy arolwg ar-lein sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Lluniwyd yr arolwg budd-ddeiliaid yn defnyddio SurveyMonkey a'i anfon dros e-bost at aelodau o'r awdurdod lleol, ynghyd ag aelodau etholedig. Paratowyd SmartSurveys ar gyfer cyflogwyr a phartneriaid Childcare Wales Learning and Working Mutually (CWLWM), gydag arolwg ychwanegol yn cael ei gynnal yn fewnol ar gyfer Timau Cyflogadwyedd Sir y Fflint.

### 2.6 Dadansoddiad o'r Bylchau ac Argymhellion

Ar ôl cwblhau'r cam ymgynghori, cynhyrchwyd crynodeb o'n canfyddiadau mewn perthynas â digonolrwydd llefydd ar draws yr awdurdod lleol. Defnyddiwyd technegau amrywiol i lunio adroddiad cyson ar y bylchau mewn digonolrwydd gofal plant ar draws yr awdurdod drwy fapio'r cyflenwad i'r galw. Yn dilyn hynny, dadansoddom y grwpiau oedran penodol/priodol, a'r ystod ac amrywiaeth o ddarpariaeth sydd ar gael yn y sir.

Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, darparwyd argymhellion strategol pellach ar gyfer Sir y Fflint er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn cyflenwad neu alw a mynd i'r afael ag effaith COVID-19. Datblygwyd cynllun gweithredu manwl ar y cyd â Phartneriaeth Datblygu Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar Sir y Fflint, y bydd yr awdurdod yn gallu ei roi ar waith ar unwaith. Bydd yn cynnwys cyfres o argymhellion sy'n amlinellu camau ymarferol yn seiliedig ar werth am arian y gallai'r awdurdod lleol eu gweithredu.

## 3. Nodi Materion Demograffig ac Economaidd-Gymdeithasol Allweddol

Mae'r adran ganlynol yn dangos dadansoddiad, yn seiliedig ar ddata a gasglwyd yn ystod tymor y Gwanwyn 2022, sy'n canolbwyntio ar sut gall ffactorau demograffig ac economaidd-gymdeithasol gael effaith ar y galw lleol am lefydd gofal plant.

Mae'r cronfeydd data a'r metrigau perthnasol wedi'u halinio â Sir y Fflint, gan gynnwys:

- Poblogaeth gyfredol a disgwyliadau / rhagdybiaethau mewn perthynas â phlant rhwng 0 a 4 oed
- Cyfraddau geni ar draws yr awdurdod lleol ers 2017 er mwyn helpu i lywio dyraniad gofal plant i'r dyfodol
- Nifer y teuluoedd sy'n gweithio (sy'n gymwys i dderbyn y Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant rhwng 3 a 4 oed) ac incymau cyfartalog aelwydydd
- Nifer y plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel
- Nifer y plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Amcan y dadansoddiad canlynol yw ystyried y graddau y bydd yn rhaid i gynllunwyr gofal plant yn Sir y Fflint barhau i flaenoriaethu eu gallu i helpu i greu neu ysgogi rhagor o lefydd gofal plant o fewn ardaloedd daearyddol arbennig ac wedi'u targedu. Mae ystod o feysydd wedi cael eu harchwilio, megis tueddiadau mudo, nifer y plant sy'n byw yn Sir y Fflint yn ôl grwpiau oedran a nifer y plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Gweler crynodeb o brif ganfyddiadau'r adran hon isod:

- Fel y gwelir yn Nhabl 2, mae'r data poblogaeth diweddaraf ar gyfer plant rhwng 0 a 4 oed gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos y bydd nifer disgwyliedig y plant yn y grŵp oedran hwn yn gostwng yn raddol ar draws Sir y Fflint rhwng 2020 a 2026. Fodd bynnag, cofnododd Sir y Fflint gyfanswm o 8,287 o blant rhwng 0 a 4 oed yng nghanol 2020, sef cynnydd bychan ar 8,233 a gofnodwyd yn 2019. Mae Cymru hefyd wedi cofnodi 4,201 yn llai o blant rhwng 0-4 oed rhwng 2019 a 2020, o 165,542 i 161,341. Yn genedlaethol, mae'r un data ar gyfer y Deyrnas Unedig yn dangos gostyngiad o 74,933 o blant rhwng 0 a 4 oed rhwng 2019 a 2020. Mae'r data yma felly'n awgrymu bod y gostyngiad disgwyliedig yn nifer y plant rhwng 0 a 4 oed yn Sir y Fflint yn annodweddiadol ar draws Cymru neu weddill y Deyrnas Unedig.
- Tueddiadau o boblogaethau'n cwympo: disgwylir i'r gyfradd enedigaethau byw ostwng yn Sir y Fflint rhwng 2020 a 2026. Yn ogystal â hynny, disgwylir i nifer y plant rhwng 0 a 18 ostwng rhwng 2023 a 2026 o 34,573 i 34,347. Gallai'r dangosyddion hyn awgrymu y gall y galw am ofal plant ostwng yn Sir y Fflint dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r data Nomis diweddaraf yn dangos bod nifer y plant rhwng 0 a 4 oed sy'n byw yn Sir y Fflint wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, yn ogystal â nifer y plant yn yr un grŵp ar draws Cymru a'r Deyrnas

Unedig.  Mae hyn yn awgrymu nad yw'r gostyngiad yn nifer y plant yn y grŵp oedran hwn yn Sir y Fflint yn anghyffredin, gan fod patrwm tebyg ar lefel genedlaethol hyd at ganol 2020.

- Anghydraddoldeb economaidd rhwng clystyrau: mae gan rai clystyrau lefel llawer uwch o ddiweithdra a phlant mewn aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra o'i gymharu ag eraill.  Er enghraifft, Ardal Gymunedol 5 (am fanylion ynghylch cyfansoddiad wardiau ym mhob Ardal Gymunedol, gweler Atodiad 2, Tabl 1) sydd â'r nifer uchaf o blant yn byw mewn aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra yn ogystal â'r canran uchaf o blant yn byw mewn teuluoedd incwm isel absoliwt ar draws Sir y Fflint. Ardal Gymunedol 7 , ar y llaw arall sydd a'r nifer isaf o blant yn byw mewn aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra, a'r canran isaf o blant yn byw mewn teuluoedd incwm isel absoliwt.
- Nifer y disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol: Canfuwyd bod gan 2.94% o blant yn Sir y Fflint Angen Dysgu Ychwanegol o ryw fath, roedd y ffigwr hwn yn uwch na'r ffigwr yn yr awdurdod cyfagos, Sir Ddinbych, ond yn is na'r ffigwr yn Wrecsam a'r Cyfartaledd Cenedlaethol.

### 3.1 Amcanestyniad poblogaeth ar gyfer Sir y Fflint

Fel y gwelir yn Nhabl 1, rhagwelir y bydd poblogaeth Sir y Fflint yn cynyddu ar draws yr awdurdod lleol o dros 3,000 o breswylwyr rhwng 2018 a 2027.

### 3.2 Y boblogaeth gyfredol ac amcanestyniadau o'r boblogaeth o blant a phobl ifanc sy'n byw yn Sir y Fflint

**Y boblogaeth gyfredol**

- O'r plant rhwng 0 a 4 oed yn Sir y Fflint, roedd 3,419 ohonynt rhwng 3 a 4 oed, sef y grŵp oedran mwyaf, roedd 1,621 o blant 2 oed a 2,999 o blant rhwng 0 ac 1 oed (fel y gwelir yn Siart 1)
- Byddai hyn yn awgrymu, ar gyfer plant dan 4, bod y galw cyfredol am ofal plant yn Sir y Fflint yn uwch ar gyfer plant rhwng 3 a 4 oed, gyda llai o alw am ofal plant i rai 0-1 oed, a llai fyth ar gyfer plant 2 oed.
- Mae Siart 1  hefyd yn dangos bod gan Ardal Gymunedol 1 a 2 nifer uwch o blant rhwng 0 ac 1 oed a 3 a 4 oed yn byw yn yr ardal, o'i gymharu ag ardaloedd eraill yn y sir.
- Mae gan Ardal 1 oddeutu  512 o blant rhwng 0 ac 1 oed a 633 o blant rhwng 3 a 4 oed, gyda 528 o blant rhwng 0 ac 1 oed a 594 o blant rhwng 3 a 4 oed yn  Ardal 2
- Ardal Gymunedol 3, sydd â'r amcangyfrif isaf o blant yn byw yno ar draws yr awdurdod lleol, gydag ond 942 o blant.  O fewn yr Ardal Gymunedol hon, dim ond 77 o blant rhwng 0 a 4 oed sy'n byw yn Nwyrain Bagillt
- Mae'r data yn  Siart 2 yn dangos mai  Ardal Gymunedol 2 sydd â'r nifer uchaf o blant yn byw yn yr ardal, gyda chyfanswm o 3,251, ac mae'r boblogaeth uchaf o blant yng Nghei Connah - Golftyn a De Cei Connah

- Mae gan Ardal Gymunedol 1 hefyd nifer uchel o blant rhwng 5 a14 oed (cyfanswm o 3,141), roedd y niferoedd yn arbennig o uchel ym Mwcle - Gorllewin Bistre, Bwcle - Pentrobin a Phenyffordd
- Roedd y mwyafrif o blant sy'n byw yn Sir y Fflint yn y grŵp oedran 8 - 11 ar draws yr Ardaloedd Cymunedol, gyda chyfanswm o 7,775. Mae nifer y plant yn y grŵp 12 - 14 oed hefyd yn uchel gyda chyfanswm o 5,883, a'r grŵp 5-7 oed yn dilyn gyda chyfanswm o 5,317.
- Gallai canfyddiadau'r tabl hwn felly awgrymu y bydd gofal plant yn Sir y Fflint i rai rhwng 5 a 14 oed yn wynebu galw uwch yn y grŵp 8 - 11 oed.

**Amcanestyniadau o'r boblogaeth**

- Fel y gwelir yn Nhabl 2, mae'r data poblogaeth diweddaraf ar gyfer plant rhwng 0 a 4 oed gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos y bydd nifer disgwyliedig y plant yn y grŵp oedran hwn yn gostwng yn raddol ar draws Sir y Fflint rhwng 2020 a 2026. (Fodd bynnag, cofnododd Sir y Fflint gyfanswm o 8,287 o blant rhwng 0 a 4 oed yng nghanol 2020, sydd ychydig yn uwch na ffigwr 2019 o 8,233)
- Mae Cymru hefyd wedi cofnodi 4,201 yn llai o blant rhwng 0 a 4 oed rhwng 2019 a 2020, o 165,542 i 161,341. Yn genedlaethol, mae'r un data ar gyfer y Deyrnas Unedig yn dangos gostyngiad o 74,933 o blant rhwng 0 a 4 oed rhwng 2019 a 2020. Mae'r data yma felly'n awgrymu nad yw'r gostyngiad disgwyliedig yn nifer y plant rhwng 0 a 4 oed yn Sir y Fflint yn annodweddiadol ar draws Cymru neu weddill y Deyrnas Unedig.
- Rhagwelir mai'r grŵp oedran 12 - 18 oed fydd yn gweld y cynnydd mwyaf mewn niferoedd rhwng 2020 a 2016, a disgwylir y bydd y gostyngiad mwyaf mewn niferoedd yn y grŵp oedran 8 - 11.
- Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd cynnydd o 444 yn nifer y plant sy'n byw yn Sir y Fflint rhwng 2020 a 2023, ond rhagwelir y bydd gostyngiad cyffredinol yn y ffigwr hwn o 218 o blant rhwng 2020 a 2026. Gallai hynny awgrymu y bydd cynnydd bychan yn y galw am ofal plant erbyn 2023, cyn y byddwn yn wynebu gostyngiad posibl erbyn 2026.

### 3.3 Cyfraddau geni yn Sir y Fflint

Mae Tabl 3 yn cynrychioli nifer y genedigaethau byw a gofnodwyd yn Sir y Fflint rhwng 2017 a 2020. Mae'r data cyfatebol yn dangos bod cyfradd y genedigaethau byw yn syrthio yn Sir y Fflint ac wedi gostwng bob blwyddyn rhwng 2017 a 2020.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae nifer y genedigaethau yn y flwyddyn i ganol 2020 ar draws y DU wedi disgyn i'w lefel isaf ers 2003, sy'n awgrymu nad Sir y Fflint yw'r unig ardal sydd wedi gweld gostyngiad yn y gyfradd enedigaethau byw. Mae gostyngiad mewn cyfraddau ffrwythlondeb ar draws y DU wedi'i nodi fel rheswm dros hyn ar lefel genedlaethol, ac mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd wedi nodi nad yw'r gostyngiad yn nifer y genedigaethau'n gysylltiedig â COVID-19.

Y rheswm dros hyn yw bod yr holl fabanod a gafodd eu geni hyd at ganol 2020 wedi cael eu cenhedlu cyn dechrau COVID-19 ym mis Mawrth 2020. Gallai'r ffigurau hyn felly awgrymu y bydd cyfradd y genedigaethau byw yn parhau i ostwng yn Sir y Fflint yn y tymor byr a'r tymor canolig, a allai leihau'r

galw am ofal plant yn yr awdurdod lleol ymhellach, yn arbennig yn sgil gostyngiadau mewn cyfraddau ffrwythlondeb ar draws y DU yn ddiweddar.

### 3.4 Ymfudo

Mae Tabl 4 yn dangos bod niferoedd ymfudo rhyngwladol yn amrywio, er enghraifft, cynyddodd cyfradd y mewnlif rhwng 2014 a 2016 cyn gostwng yn ôl i lefel cyfradd 2014 o 447 yn 2019-2020. Yn yr un modd, mae niferoedd all-lifo rhyngwladol yn amrywio dros y cyfnod hwn, o 287 yn 2013, gyda chynnydd i 511 yn 2017, cyn dychwelyd i lefelau tebyg i 2013 yn 2020.

O ran ymfudo mewnol, gwelwyd cynnydd yn lefel y mewnlif rhwng 2013 a 2016 o 4,857 i 5,161. Fodd bynnag, gostyngodd y ffigwr hwn i 5,037 yn 2020, gan eithrio'r cynnydd i 5,200 yn 2018. Mae'r patrwm all-lifo mewn perthynas ag ymfudo mewnol yn Sir y Fflint wedi gostwng yn sylweddol ers lefelau 2013 i 4,140 yn 2020 yn dilyn blynyddoedd o amrywiadau mewn niferoedd.

Mae'n bosibl y bydd effeithiau COVID-19 a Brexit yn arwain at ostyngiad yn nifer y bobl sy'n dod i Gymru yn ogystal â chynnydd yn nifer y bobl sy'n gadael yn hytrach na dod i mewn, gan arwain at fudo net negyddol. Mae nifer o resymau posibl dros hyn. I ddechrau, mae Arsyllfa Fudol Rhydychen yn nodi bod System Fewnfudo ar sail Pwyntiau newydd y DU, sy'n cyflwyno rhagor o gyfyngiadau ar nifer y gweithwyr UE sgiliau is a gaiff eu gadael i mewn i'r DU, yn debygol o gyfrannu at ostyngiad mewn mudo, a allai gael effaith ar awdurdodau lleol megis Sir y Fflint. [2]

Yn ail, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi nodi bod y gyfradd ymfudo mewnol wedi gostwng ar draws y DU yn y cyfnod cyn canol 2020, 11.5% yn 2019. Y rheswm a awgrymwyd dros hyn oedd bod y cyfnod clo cenedlaethol a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2020 wedi arwain at lai o bobl yn gallu symud tŷ, sydd o bosibl wedi cyfrannu at y gostyngiadau yn y lefelau mewnlif ac all-lif o fewnfudwyr yn Sir y Fflint yn 2020. Nid yw effaith lawn y ffactorau hyn yn gwbl hysbys eto; fodd bynnag, dylid cymryd y ddau ffactor i ystyriaeth wrth amcangyfrif nifer y llefydd gofal plant sydd eu hangen yn Sir y Fflint.

Mae'r newid o ran ymfudo net, a welir yn yr adrannau Ymfudo Rhyngwladol ac Ymfudo Mewnol yn Nhabl 4, yn cyfeirio at gyfradd y mewnlif minws nifer yr all-lifoedd.

### 3.5 Ethnigrwydd yn Sir y Fflint

Tabl 5 - Nifer y plant 5 oed neu hŷn yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth ac ethnigrwydd ar gyfer 2020/21 (Ffynhonnell: Stats Cymru 2021)[3][4]

[2] https://migrationobservatory.ox.ac.uk/resources/commentaries/calculating-the-bill-the-projected-impacts-of-the-points-based-immigration-system-after-brexit/
[3] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Ethnicity-National-Identity-and-Language/pupilsaged5andiover-by-localauthorityregion-ethnicity
[4] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Ethnicity-National-Identity-and-Language/pupilsaged5andiover-by-localauthorityregion-ethnicity

| Awdurdod Lleol | Gwyn Prydeinig | Unrhyw gefndir ethnig arall | Anhysbys neu heb ddatgan | Holl ddisgyblion |
|---|---|---|---|---|
| Sir y Fflint | 18,261 | 1,745 | 79 | 20,085 |

| Ethnigrwydd | Nifer y disgyblion 5 oed a hŷn |
|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 18,260 |
| Teithwyr | 65 |
| Sipsiwn | 15 |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall | 1,045 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 45 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 75 |
| Gwyn ac Asiaidd | 80 |
| Unrhyw gefndir Cymysg arall | 215 |
| Indiaidd | 30 |
| Pacistanaidd | 20 |
| Bangladeshaidd | 15 |
| Unrhyw gefndir Asiaidd arall | 15 |
| Caribïaidd | * |
| Affricanaidd | 15 |
| Unrhyw gefndir du arall | 10 |
| Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig | 25 |
| Unrhyw gefndir ethnig arall | 75 |
| Anhysbys neu heb ddatgan | 80 |

Fel y gwelir uchod, mae gan Sir y Fflint gyfradd uchel o ddisgyblion 5 oed a hŷn sy'n nodi eu bod o gefndir gwyn Prydeinig (90%). Dim ond 10% o ddisgyblion sy'n nodi eu bod o gefndir Prydeinig heb fod yn wyn. Fodd bynnag, mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd yng Nghymru yn ôl cyfrifiad cenedlaethol 2011.

### 3.6 Cyflogaeth

Mae Siart 3 yn dangos amlder oedolion sydd (neu a oedd) yn 'economaidd weithgar' sy'n awgrymu eu bod mewn cyflogaeth. Gan fod y data diweddaraf sydd ar gael yn deillio'n ôl i 2011, mae'n bosibl y bydd ystadegau cyflogaeth wedi newid, yn arbennig yn sgil yr effaith mae COVID-19 wedi'i gael ar lefelau cyflogaeth ar draws y DU.

Mae'r data'n dangos mai Ardal Gymunedol 1 oedd â'r gyfradd gyflogaeth uchaf allan o ardaloedd cymunedol Sir y Fflint, gydag Ardal Gymunedol 6 yn dilyn yn agos. Ardaloedd Cymunedol 3 a 5 ar y llaw arall oedd â'r cyfraddau isaf o oedolion a oedd yn 'economaidd weithgar'. Yn seiliedig ar hyn, byddem yn disgwyl gweld cyfradd uwch o rieni sy'n gweithio mewn llefydd fel Bwcle, Penyffordd, Ewlo a Queensferry, gyda llai o rieni sy'n gweithio yng Ngronant a Chastell y Fflint.

Mae'r data Nomis diweddaraf sy'n cynnwys cyfraddau cyflogaeth ar draws Cymru rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mehefin 2021 yn dangos bod 78.97% o boblogaeth Sir y Fflint yn 'economaidd weithgar'. Mae'r canran hwn 3.57% yn uwch na'r gyfradd gyflogaeth o 75.4% a gofnodwyd ar draws Cymru, a 0.57% yn uwch na'r gyfradd gyflogaeth o 78.4% a gofnodwyd ym Mhrydain. Gallai'r ffigurau hyn ddangos felly, er bod cyfraddau cyflogaeth ac anghysondeb economaidd yn amrywio yn wardiau Sir y Fflint, mae'r gyfradd gyflogaeth sirol gyffredinol yn debyg i'r hyn a welir yng ngweddill Cymru a'r DU.

Tabl 6 - Nifer y plant yn Sir y Fflint sy'n byw mewn aelwydydd a oedd yn hawlio budd-daliadau diweithdra ym mis Mai 2017 (Ffynhonnell: Adran Gwaith a Phensiynau 2019)[5]

| Ardal Gymunedol | 0-4 oed | 5-10 oed | 11-15 oed | 16-18 oed | 0-15 oed | 0-18 oed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardal Gymunedol 1 | 150 | 160 | 120 | 50 | 430 | 480 |
| Ardal Gymunedol 2 | 290 | 305 | 205 | 100 | 800 | 900 |
| Ardal Gymunedol 3 | 170 | 210 | 140 | 65 | 520 | 585 |
| Ardal Gymunedol 4 | 140 | 150 | 115 | 55 | 405 | 460 |
| Ardal Gymunedol 5 | 285 | 310 | 235 | 110 | 830 | 940 |
| Ardal Gymunedol 6 | 125 | 190 | 140 | 40 | 455 | 495 |
| Ardal Gymunedol 7 | 110 | 135 | 115 | 25 | 360 | 385 |

Mae'r data uchod (gweler y crynodeb fesul ward yn Nhabl 7) yn dangos mai Ardal Gymunedol 5 sydd â'r nifer uchaf o blant yn byw mewn aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau digartrefedd gyda 940 o blant rhwng 0 a 18 oed, a Chanol Treffynnon, Gorllewin Treffynnon a Maes Glas sydd â'r niferoedd uchaf o fewn yr Ardal Gymunedol hon. Ardaloedd 7 a 4 ar y llaw arall sydd â'r niferoedd isaf, gyda chyn lleied â 5 mewn llefydd fel Cilcain, yn y drefn honno.  Er mai niferoedd absoliwt yn hytrach na pherthynol yw'r rhain, maent yn rhoi darlun i ni o faint o blant sy'n byw mewn aelwydydd di-waith mewn gwahanol ardaloedd.

### 3.7 Aelwydydd un rhiant

Tabl 8 - Mathau o aelwydydd a'r niferoedd yn Sir y Fflint (ffynhonnell: Stats Cymru)[6]

| Math o aelwyd | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 unigolyn | 19,422 | 19,605 | 19,759 | 19,899 | 20,040 |
| 2 unigolyn (dim plant) | 22,591 | 22,668 | 22,786 | 22,899 | 23,012 |
| 2 unigolyn (1 oedolyn, 1 plentyn) | 2,606 | 2,655 | 2,702 | 2,747 | 2,790 |
| 3 unigolyn (dim plant) | 4,515 | 4,490 | 4,460 | 4,429 | 4,404 |
| 3 unigolyn (2 oedolyn, 1 plentyn) | 4,551 | 4,558 | 4,558 | 4,553 | 4,541 |

[5] https://www.gov.uk/government/statistics/children-in-out-of-work-benefit-households-31-may-2017
[6] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Households/Projections/Local-Authority/2008-Based/Households-by-LocalAuthority-Type-Year

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 unigolyn (1 oedolyn, 1 plentyn) | 1,331 | 1,337 | 1,340 | 1,345 | 1,345 |
| 4 unigolyn (dim plant) | 1,504 | 1,496 | 1,488 | 1,481 | 1,477 |
| 4 unigolyn (2+ oedolyn, 1+ plentyn) | 6,675 | 6,674 | 6,667 | 6,663 | 6,653 |
| 4 unigolyn (1 oedolyn, 3 plentyn) | 420 | 421 | 422 | 423 | 422 |
| 5+ unigolyn (dim plant) | 363 | 368 | 372 | 375 | 379 |
| 5+ unigolyn (2+ oedolyn, 1+ plentyn) | 3,292 | 3,277 | 3,260 | 3,245 | 3,227 |
| 5+ unigolyn (1 oedolyn, 4+ plentyn) | 199 | 202 | 205 | 207 | 209 |
| **Cyfanswm yr aelwydydd** | **67470** | **67752** | **68020** | **68266** | **68498** |

Fel y gwelir uchod, y math o aelwyd mwyaf cyffredin yw tŷ â dau unigolyn heb ddim plant, ac aelwydydd ag 1 unigolyn yn ail. Y math o aelwyd mwyaf cyffredin sy'n cynnwys plant yw aelwyd â 4 o bobl (gydag o leiaf 2 oedolyn ac o leiaf 1 plentyn).

### 3.8 Incwm cyfartalog aelwydydd

Tabl 9 - Incwm cyfartalog gros aelwydydd yn ôl ardal gymunedol (ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol 2018)[7]

| Ardal Gymunedol | Incwm cyfartalog gros aelwydydd (£) fesul Ardal Gymunedol |
|---|---|
| Ardal Gymunedol 1 | 46,367 |
| Ardal Gymunedol 2 | 36,260 |
| Ardal Gymunedol 3 | 32,029 |
| Ardal Gymunedol 4 | 42,600 |
| Ardal Gymunedol 5 | 36,825 |
| Ardal Gymunedol 6 | 42,871 |
| Ardal Gymunedol 7 | 45,200 |

Mae Tabl 9 yn dangos mai Ardal Gymunedol 3 oedd â'r incwm aelwyd gros cyfartalog blynyddol isaf, gyda £32,029, Ardal Gymunedol 1 ar y llaw arall oedd â'r uchaf, gyda £46,367. Mae hyn yn cynrychioli gwahaniaeth o dros £14,600 rhwng yr incwm cyfartalog gros blynyddol uchaf ac isaf fesul aelwyd yn Sir y Fflint.

### 3.9 Mynegai aelwydydd incwm isel

Fel y gwelir yn Siart 4 (am grynodeb fesul ward, gweler Tabl 10), Ardal Gymunedol 5 sydd â'r canran uchaf o blant yn byw mewn teuluoedd incwm isel absoliwt yn Sir y Fflint gyda 15%, ac Ardal Gymunedol 3 yn ail gydag 13%.

[7] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/smallareaincomeestimatesformiddlelayersuperoutputareasenglandandwales

Queensferry oedd â'r canran cyffredinol uchaf yn Sir y Fflint, gyda 25%, ond mae hyn yn gymharol uchel o'i gymharu ag Ardal Gymunedol 6. Ardal Gymunedol 6, ar y llaw arall, sydd â'r canrannau isaf yn yr awdurdod, gyda 3% ym Mhenarlâg a 5% yn Ewlo. Mae hyn yn cynrychioli gwahaniaeth o 22% *o fewn* ardal gymunedol sydd â'r nifer uchaf a'r nifer isaf o blant yn y categori hwn yn Sir y Fflint. Yn yr un modd â'r data yn y tablau uchod, gallai'r data yn Siart 4 awgrymu bod lefelau sylweddol o anghydraddoldeb economaidd rhwng wardiau, ac y gallai hyn gael effaith ar ganran uwch o deuluoedd mewn rhai wardiau o ran gallu cael mynediad at ofal plant fforddiadwy.

### 3.10 Nifer y plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Roedd Cyfrifiad Ysgolion 2020/21 Sir y Fflint yn dangos bod 23,380 o ddisgyblion yn mynychu ysgolion yn Sir y Fflint, ac roedd gan 688 o'r disgyblion hyn Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig - h.y. 2.94%.[8] Roedd hyn yn uwch a Sir Ddinbych, ond yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol a'r awdurdod lleol cyfagos arall, Wrecsam.

- Awdurdod lleol cyfagos 1 - Wrecsam = 4.40%
- Awdurdod lleol cyfagos 2 - Sir Ddinbych =2.33%
- Cyfartaledd Cenedlaethol = 2.97%

### 3.11 Data'r iaith Gymraeg

Tabl 10 - Gallu siarad Cymraeg, poblogaeth Sir y Fflint sy'n hŷn na 3 oed (Ffynhonnell: StatsCymru)[9]

| Pawb 3 oed neu hŷn | Ie, yn gallu siarad Saesneg | Na, ddim yn gallu siarad Cymraeg | Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|
| 151,300 | 35,000 | 116,200 | 23.2 |

### 3.12 Cynlluniau Tai

Bydd Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd yn darparu'r strategaeth gynllunio a'r fframwaith polisi ar gyfer y sir am gyfnod o 15 mlynedd rhwng 2015 a 2030. Bydd y Cyngor yn ei ddefnyddio i arwain a rheoli datblygiad a buddsoddiad, gan ddarparu sail ar gyfer pennu ceisiadau cynllunio mewn modd cyson a thryloyw. Un o themâu allweddol y Cynllun fydd datblygiad cynaliadwy. Unwaith y bydd wedi cael ei fabwysiadu, bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn disodli'r Cynlluniau Datblygu Unedol (2000-2015) mabwysiedig ac yn cynrychioli fframwaith cynllunio lleol Sir y Fflint.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnig datblygiad o 7,000 o gartrefi newydd dros gyfnod y Cynllun (2015 – 2030). Er nad yw'n debyg y bydd datblygiad tai o'r raddfa hon yn arwain at gynnydd sylweddol mewn galw am ofal plant ar draws Sir y Fflint, pan fo datblygiadau sylweddol yn debygol o

---

[8] https://www.gov.uk/government/statistics/special-educational-needs-in-england-january-2019
[9] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure

ddenu teuluoedd gyda phlant ifanc, mae'n rhaid cynnal trafodaethau o fewn yr awdurdod lleol i sicrhau bod yr effaith ar y farchnad gofal plant yn cael ei hasesu.


### 3.13 Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac Asesiad o Anghenion Lles Lleol

Mae Asesiad Lles Lleol Sir y Fflint a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn hanfodol ar gyfer deall yr heriau sy'n wynebu gofal plant yn y sir. Mae'r canfyddiadau o ddrafft cyntaf yr Asesiad Lles Lleol yn nodi bod lleoliadau gofal plant yn Sir y Fflint wedi'u lleoli'n dda ac yn bodloni anghenion y mwyafrif o rieni/gofalwyr. Ystyrir hefyd bod gofal plant yn ddibynadwy ar y cyfan, ac mae'r mwyafrif o rieni'n credu bod ansawdd y gofal plant yn dda. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod pwysau a bylchau mewn rhai meysydd, sydd wedi'u nodi drwy'r asesiad gofal plant o alw a chyflenwad.

# 4. Trosolwg o'r Ddarpariaeth Gofal Plant Bresennol a Chanlyniadau Arolygon Darparwyr a Gwarchodwyr Plant

Defnyddiwyd cyfraniadau darparwyr gofal plant Sir y Fflint yn yr ymarfer casglu data ar gyfer y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth 2021 i hysbysu'r adran hon.

Cwblhaodd 199 o ddarparwyr gofal plant y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, gan gynnwys 91 o ddarparwyr gofal dydd a 91 o warchodwyr plant. Roedd y crynodeb o'r mathau o ddarparwyr a gwblhaodd yr arolwg fel a ganlyn:




Roedd 8 o ddarparwyr ychwanegol nad oeddent wedi cwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ond fe gasglwyd y data perthnasol gyda chefnogaeth gan bartneriaid Childcare Wales Learning and Working Mutually . Mae hyn yn cynnwys 4 o ddarparwyr gofal diwrnod llawn, 1 darparwr gofal dydd sesiynol a 3 o ddarparwyr y tu allan i'r ysgol. Cwblhaodd 1 darparwr gofal 'nani' gyfres o gwestiynau wedi'u crynhoi hefyd.

## 4.1 Nifer y darparwyr gofal plant a'r math o wasanaeth

Mae'r darparwyr gofal plant cofrestredig canlynol yn weithredol yn Sir y Fflint ar hyn o bryd:

- Lleoliadau Gofal Diwrnod Llawn: 55
- Gwarchodwyr Plant: 91
- Darpariaeth y tu allan i'r ysgol: 36
- Gofal Dydd Sesiynol: 19
- Meithrinfa: 3
- Nanis: 4

Mae darparwyr gofal plant wedi cofrestru i ofalu am gyfanswm o 5,129 o blant[10].

Mae nifer y plant ar lyfrau darparwyr gofal plant, a gofnodwyd yn ystod haf 2021, wedi'u grwpio yn ôl eu hoedran fel a ganlyn:

| | 0-1 oed | 1-2 oed | 2-3 oed | 3-4 oed | 4-5 oed | 5-7 oed | 8-11 oed | 12-14 oed | 15-17 oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant sy'n defnyddio gofal plant ar hyn o bryd | 104 | 498 | 880 | 1137 | 972 | 1632 | 1624 | 14 | 0 |

Cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal yw 6,861. Mae'r ffigwr hwn yn uwch na nifer y llefydd y mae darparwyr gofal plant wedi cofrestru i ofalu amdanynt gan fod rhai plant wedi cofrestru gyda mwy nag un darparwr ar ddyddiau neu sesiynau penodol. Mae Tabl 2 yn dangos nifer y plant sy'n cael mynediad at ofal plant ym mhob grŵp oedran, wedi'u halinio â'r wardiau.

Gellir dod o hyd i nifer y plant a oedd yn cael mynediad at lefydd llawn amser, rhan amser ac ad hoc yn ystod tymor yr haf 2021, wedi'u halinio â wardiau, yn Nhabl 22. Ar draws bob ward, roedd y mwyafrif o blant a oedd yn cael mynediad at lefydd gofal plant yn gwneud hynny ar sail ran-amser. Roedd nifer sylweddol o blant hefyd yn cael mynediad at ofal plant ad hoc, sy'n dangos tuedd posibl ym mhatrymau gwaith rhieni.

Mae 42% o ddarparwyr gofal dydd yn darparu Lleoliadau Addysg Gynnar yn eu lleoliad ar hyn o bryd. Gellir gweld nifer cyfartalog y plant sy'n mynychu'r rhan hon o'r gwasanaeth fesul wythnos yn Siart 21. Fel y gwelir, rhwng 1 a 10 o blant oedd yr ymateb mwyaf cyffredin gyda chanran o 45.3%.

### 4.2 Cyfnodau gweithredol arferol darparwyr

Mae'r mwyafrif o ddarparwyr gofal plant yn Sir y Fflint yn gweithredu yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau ysgol (Siart 22).

Y math o ddarparwr gofal plant sydd fwyaf tebygol o gynnig gofal plant yn ystod gwyliau ysgol oedd gwarchodwyr plant, gyda darparwyr gofal diwrnod llawn yn ail gyda niferoedd llawer is (Siart 23).

### 4.3 Niferoedd ar restrau aros

Gweler isod grynodeb o nifer y plant a oedd ar restrau aros yn ystod tymor yr haf 2021 yn ôl ardal gymunedol:

| Ardal Gymunedol | Gofal Diwrnod Llawn | Gofal Hanner Diwrnod | Boreau | Prynhawniau | Cyn Ysgol | Ar ôl Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|---|

[10] Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys y lleoliadau na wnaethant gwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardal Gymunedol 1 | 6 | 0 | 0 | 0 | 22 | 22 |
| Ardal Gymunedol 2 | 17 | 14 | 0 | 0 | 12 | 0 |
| Ardal Gymunedol 3 | 6 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ardal Gymunedol 4 | 5 | 1 | 5 | 15 | 0 | 0 |
| Ardal Gymunedol 5 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ardal Gymunedol 6 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ardal Gymunedol 7 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | 10 |
| **Cyfanswm fesul math o ofal plant** | **53** | **21** | **5** | **15** | **34** | **32** |

Mae 160 o blant ar restr aros ar gyfer y mathau uchod o ofal plant ar draws Sir y Fflint ar hyn o bryd. Mae'r mwyafrif o'r rhain yn aros am le ar gyfer gofal diwrnod llawn neu ofal estynedig. Dylid nodi nad yw bob darparwr, er enghraifft rhai gwarchodwyr plant, yn gweithredu system rhestr aros ac felly efallai nad yw'r data'n cynnig cynrychiolaeth lawn.

### 4.4 Niferoedd llefydd gwag

Gweler isod grynodeb o nifer y llefydd gwag mewn lleoliadau gofal plant yn ystod tymor yr haf 2021 yn ôl ardal gymunedol:

| Ardal Gymunedol | Gofal Diwrnod Llawn | Gofal Hanner Diwrnod | Boreau | Prynhawniau | Cyn Ysgol | Ar ôl Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardal Gymunedol 1 | 95 | 21 | 30 | 12 | 120 | 983 |
| Ardal Gymunedol 2 | 39 | 33 | 12 | 12 | 142 | 150 |
| Ardal Gymunedol 3 | 123 | 6 | 13 | 12 | 4 | 36 |
| Ardal Gymunedol 4 | 89 | 27 | 27 | 7 | 46 | 283 |
| Ardal Gymunedol 5 | 8 | 0 | 92 | 13 | 40 | 107 |
| Ardal Gymunedol 6 | 135 | 40 | 0 | 0 | 20 | 46 |
| Ardal Gymunedol 7 | 523 | 114 | 0 | 0 | 93 | 54 |
| **Cyfanswm fesul math o ofal plant** | **1012** | **241** | **174** | **56** | **465** | **1659** |

Mae 3,607 o lefydd gwag mewn lleoliadau gofal plant ar draws Sir y Fflint ar hyn o bryd, gyda'r mwyafrif o'r llefydd hynny ar gyfer darpariaeth ar ôl ysgol a darpariaeth gofal diwrnod llawn.

Mae 6 lle gwag ar gyfer gofal plant dros benwythnosau ar hyn o bryd, mae'r rhain i gyd yn Ne Brychdyn.  Nid oes llefydd gwag ar gyfer gofal dros nos yn Sir y Fflint.


### 4.5 Cefnogaeth ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a/neu anghenon meddygol cymhleth

Yn ystod tymor yr haf 2021, roedd 198 o blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a/neu anghenion meddygol cymhleth wedi cofrestru am le gofal plant yn Sir y Fflint.  Gellir gweld nifer y plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n defnyddio gofal plant cofrestredig ar hyn bryd, yn ôl ardal gymunedol a math o ofal plant isod:


| Ardal Gymunedol | Gofal Diwrnod Llawn | Gwarchodwr Plant | Gofal Dydd Sesiynol | Gofal y Tu Allan i'r Ysgol | Meithrinfa | Cyfanswm fesul ardal gymunedol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardal Gymunedol 1 | 4 | 4 | 2 | 5 | 0 | **15** |
| Ardal Gymunedol 2 | 7 | 26 | 3 | 22 | 0 | **58** |
| Ardal Gymunedol 3 | 7 | 0 | 0 | 39 | 0 | **46** |
| Ardal Gymunedol 4 | 9 | 3 | 1 | 7 | 0 | **20** |
| Ardal Gymunedol 5 | 14 | 1 | 0 | 11 | 0 | **26** |
| Ardal Gymunedol 6 | 8 | 2 | 0 | 10 | 0 | **20** |
| Ardal Gymunedol 7 | 8 | 6 | 0 | 1 | 0 | **15** |


| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm fesul math o ddarparwr** | **52** | **47** | **6** | **95** | **0** | **198** |

Fel y gwelir yn y siart isod, nid yw'r mwyafrif o ddarparwyr yn gofalu am blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar hyn o bryd.  Mae gan dros draean o'r darparwyr, fodd bynnag, o leiaf 1 plentyn cofrestredig sydd ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol.  Roedd y mwyafrif o'r rhain yn ddarparwyr gofal diwrnod llawn (27) neu ddarparwyr y tu allan i'r ysgol (20).




Mae'r siart isod yn dangos canran y darparwyr gofal plant sy'n darparu neu'n gallu darparu cefnogaeth i blant â mathau gwahanol o Anghenion Dysgu Ychwanegol ar hyn o bryd.




Nid yw 38.7% o ddarparwyr yn darparu unrhyw gefnogaeth i blant ag anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol ar draws Sir y Fflint, ac mae 60.8% o leoliadau'n cefnogi pob math o Anghenion Dysgu Ychwanegol.  Mae'r unig Nani a ymatebodd i'r arolwg yn gofalu am blentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar hyn o bryd.

### 4.6 Costau gofal plant

**<u>Costau cyfartalog fesul diwrnod</u>**

| Math o ddarparwr gofal plant | 0-1 oed | 1-2 oed | 2-3 oed | 3-4 oed | 4-5 oed | 5-7 oed | 8-11 oed | 11+ oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Diwrnod Llawn | £44.66 | £44.83 | £36.80 | £36.48 | £38.23 | £33.84 | £33.21 | Amherthnasol |
| Gofal Dydd Sesiynol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | £9.83 | £9.83 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Gwarchodwr Plant | £36.17 | £35.41 | £35.55 | £35.30 | £36.57 | £31.14 | £32.53 | Amherthnasol |
| Gofal y Tu Allan i'r Ysgol[11] | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | £22.94 | £21.90 | £20.59 | Amherthnasol |
| Meithrinfa | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |

**Cost gyfartalog fesul sesiwn**

| Math o ddarparwr gofal plant | 0-1 oed | 1-2 oed | 2-3 oed | 3-4 oed | 4-5 oed | 5-7 oed | 8-11 oed | 11+ oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Diwrnod Llawn | £29.68 | £29.61 | £18.21 | £18.97 | £18.80 | £16.10 | £15.02 | Amherthnasol |
| Gofal Dydd Sesiynol | Amherthnasol | Amherthnasol | £9.27 | £9.59 | £10.00 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Gwarchodwr Plant | £15.00 | £29.64 | £19.65 | £20.67 | £16.36 | £14.81 | £10.33 | Amherthnasol |
| Gofal y Tu Allan i'r Ysgol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | £9.15 | £9.82 | £8.80 | Amherthnasol |

[11]Mae’r ffigurau hyn yn cynnwys gofal cyn ysgol, clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Meithrinfa | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |

**Costau cyfartalog fesul awr**

| Math o ddarparwr gofal plant | 0-1 oed | 1-2 oed | 2-3 oed | 3-4 oed | 4-5 oed | 5-7 oed | 8-11 oed | 11+ oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Diwrnod Llawn | £8.00 | £8.00 | £5.24 | £5.36 | £4.89 | £4.48 | £4.14 | Amherthnasol |
| Gofal Dydd Sesiynol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Gwarchodwr Plant | £4.04 | £4.71 | £4.21 | £4.24 | £4.32 | £4.28 | £4.10 | Amherthnasol |
| Gofal y Tu Allan i'r Ysgol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | £3.90 | £3.98 | £3.90 | £3.88 | £3.50 |
| Meithrinfa | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |

Roedd y costau gofal plant drytaf ar gyfer plant o dan 2 oed. Yr ardaloedd cymunedol lle’r oedd costau cyfartalog gofal plant ar eu huchaf, gan ddechrau gyda’r drytaf, oedd:

1. Ardal Gymunedol 5 - cyfradd gyfartalog o £5.63 yr awr
2. Ardal Gymunedol 7 - cyfradd gyfartalog o £5.50 yr awr

Roedd y ffioedd gofal plant isaf yn Ardal Gymunedol 3, a’r costau cyfartalog fesul awr oedd £4.04.

Nododd darparwyr bod y mwyafrif o rieni sy’n defnyddio eu gwasanaethau’n derbyn Gofal Plant Di-dreth neu Dalebau Gofal Plant i helpu gyda chostau gofal plant. Mae Siart 6 yn dangos bod 78.3% o ddarparwyr wedi nodi bod rhieni’n derbyn gofal plant di-dreth neu’n defnyddio talebau gofal plant. Mae 34% o’r darparwyr gofal plant a ymatebodd yn cynnig rhyw fath o ostyngiad i frodyr a chwiorydd ar hyn o bryd.

### 4.7 Oriau agor

Gweler yr amseroedd agor a chau mwyaf cyffredin ar gyfer bob darparwr yn y tabl isod:

| Math o ddarparwr | Amser agor mwyaf cyffredin | Amser cau mwyaf cyffredin |
|---|---|---|
| Gofal Diwrnod Llawn | 8:00 | 17:30 |
| Gwarchodwr Plant | 7:30 | 18:00 |
| Gofal Dydd Sesiynol | 9:00 (sesiwn bore)<br>11:30 (sesiwn prynhawn) | 12:00 (sesiwn bore)<br>15:00 (sesiwn prynhawn) |
| Gofal y Tu Allan i'r Ysgol | 15:00 | 17:30 |
| Meithrinfa | 9:00 | 16:00 |

Ar y cyfan, roedd mwy o blant yn mynychu gofal plant ar ôl ysgol o'i gymharu â gofal plant cyn ysgol. Fel y gwelir yn  Siart 7, mae 46% o blant yn mynychu gofal plant cyn ysgol ac fel y gwelir, mae 64.4% yn mynychu gofal plant ar ôl ysgol.  Gellir dod o hyd i niferoedd cyfartalog preswylwyr a'u hoedrannau ar Siart 9 a Siart 10.

Ar hyn o bryd, dim ond 2% o ddarparwyr sy'n cynnig gofal plant gyda'r nos ar ôl 6pm, mae'r rhain wedi'u lleoli yng Nghanol Cei Connah a De Brychdyn. Mae 1.4% o ddarparwyr yn darparu gofal dros nos yn y sir ar hyn o bryd; mae'r rhain i gyd yn warchodwyr plant wedi'u lleoli yng Nghanol Cei Connah. Mae 2.5% o ddarparwyr yn darparu gofal plant ar benwythnosau ar hyn o bryd, ac mae'r rhain wedi'u lleoli yng Nghanol Cei Connah, Cei Connah - Golftyn a De Brychdyn.

### 4.8 Cyflenwad o leoedd i blant rhwng 3 a 4 oed drwy'r Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg

Mae 168 o ddarparwyr gofal plant wedi'u cofrestru i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant i blant rhwng 3 a 4 oed yn Sir y Fflint ar hyn o bryd, sy'n cynrychioli 84.5%. Mae 84 o'r rhain yn warchodwyr plant, mae 51 ohonynt yn ddarparwyr gofal diwrnod llawn, mae 17 ohonynt yn ddarparwyr gofal dydd sesiynol ac 17 ohonynt yn ddarparwyr gofal y tu allan i'r ysgol.  Pan ofynnwyd a oedd unrhyw gyllid o'r Cynnig Gofal Plant yn cael ei ddarparu, nododd 79.9% o ddarparwyr 'Oes' fel ateb.  I weld crynodeb llawn o'r ymatebion, gweler Siart 11 a Siart 12.

O'r holl ddarparwyr gofal plant, gan gynnwys y rhai na wnaethant gwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, nododd 19.4% ohonynt eu bod yn derbyn cyllid i ddarparu llefydd Gofal Plant (Siart 13). Yn ystod y gwanwyn 2022, roedd 33 o leoliadau gofal plant yn derbyn cyllid i ddarparu llefydd Dechrau'n Deg.  Mae'r lleoliadau gofal plant hyn wedi'u lleoli yn y wardiau canlynol ar draws ardaloedd cymunedol 1-6:

- Aston
- Gorllewin Bagillt
- Bwcle - Dwyrain Bistre
- Bwcle - Gorllewin Bistre
- Cei Connah Golftyn
- Canol Cei Connah
- De Cei Connah
- Ewlo
- Castell y Fflint
- Y Fflint - Oakenholt


- Canol Treffynnon
- Mancot
- De'r Wyddgrug
- Gorllewin Yr Wyddgrug
- New Brighton
- Sealand
- Dwyrain Shotton
- Shotton Uchaf
- Gorllewin Shotton
- Treuddyn


### 4.9 Darpariaeth Gymraeg

Mae Siart 14 yn dangos bod 4.3% o leoliadau yn siarad Cymraeg yn bennaf ar hyn o bryd. Mae'r lleoliadau hyn wedi'u lleoli ym Mwcle - Gorllewin Bistre, y Fflint, Ffynnongroyw, Canol Treffynnon, Yr Wyddgrug - Broncoed, Gorllewin Shotton, y Fflint a Threuddyn. Nid oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardaloedd cymunedol 6 a 7 ar hyn o bryd, fodd bynnag mae darpariaeth Saesneg gyda Chymraeg fel ail iaith ar gael yn yr ardaloedd hyn.


Roedd y lleoliadau sy'n darparu Cynnig Gweithredol y Gymraeg yn ystod tymor yr haf 2021 wedi'u lleoli yn:


- Dwyrain Bagillt
- De Brychdyn
- Bwcle - Gorllewin Bistre
- Mynydd Bwcle
- Ffynnongroyw
- Y Fflint - Oakenholt
- Canol Treffynnon
- Yr Wyddgrug - Broncoed
- Gorllewin Yr Wyddgrug
- Penyffordd
- Gorllewin Shotton
- Treuddyn
- Chwitffordd







Mae'r siartiau isod yn dangos nad yw'r mwyafrif o staff gofal plant yn rhugl yn y Gymraeg yn Sir y Fflint ar hyn o bryd, a allai arwain at anawsterau mewn darpariaeth gofal cyfrwng Cymraeg ar draws y sir.






Mae data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth wedi dangos bod nifer o ail ieithoedd yn cael eu defnyddio ar draws lleoliadau, roedd nifer o leoliadau'n defnyddio'r Gymraeg fel ail iaith i Saesneg:


| Ail ieithoedd eraill a ddefnyddir mewn darpariaethau gwasanaeth | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Saesneg | 4 | 4.9% |
| Cymraeg | 68 | 82.9% |
| Makaton | 2 | 2.4% |

| | | |
|---|---|---|
| Ffrangeg | 2 | 2.4% |
| Eidaleg | 1 | 1.2% |
| Sbaeneg | 2 | 2.4% |
| Lithwaneg | 1 | 1.2% |
| Pwyleg | 1 | 1.2% |
| Rwmaneg | 1 | 1.2% |

### 4.10 Effaith COVID-19 ar alw a digonolrwydd


Nododd 66 allan o 199 o ddarparwyr eu bod wedi cau am gyfnod yn ystod y pandemig, gydag 11 o'r rheiny wedi cau 3 gwaith. Ar adeg cwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, dim ond 63% o ddarparwyr oedd yn gweithredu ar gapasiti llawn.

Gofynnwyd i ddarparwyr am gynaliadwyedd eu busnes:





Roedd 8% o ddarparwyr yn teimlo bod y pandemig wedi eu heffeithio i'r fath raddau fel na fyddai modd iddynt gynnal eu darpariaeth ymhen 6 mis. Nid oedd nifer o ddarparwyr yn siŵr, gan adlewyrchu'r ansicrwydd mae'r pandemig wedi'i achosi.

Nid yw'r mwyafrif o ddarparwyr yn teimlo bod COVID-19 wedi effeithio ar eu cymarebau staff, a nododd y mwyafrif ohonynt nad oedd eu cymarebau wedi newid o gwbl.




Roedd rhai darparwyr yn teimlo bod COVID-19 wedi arwain at lai o hyfforddiant.




Roedd 12% o'r darparwyr hyn yn teimlo bod hynny o ganlyniad i ddiffyg mynediad at TG, a 10% yn teimlo ei fod o ganlyniad i ddiffyg cyllid.  Nododd y mwyafrif (51%) bod hyn o ganlyniad i'r ffaith nad

oedd pobl yn gallu ymgymryd â chymwysterau, a nododd 24% ddiffyg staff cyflenwi fel rheswm dros y gostyngiad mewn hyfforddiant.

Nododd 93% o ddarparwyr bod ganddynt fynediad at Gyfarpar Diogelu Personol drwy gydol y pandemig. Cadarnhaodd y rhai nad oedd ganddynt fynediad at Gyfarpar Diogelu Personol drwy gydol y pandemig bod ganddynt bellach fynediad at y cyfarpar hwn.

### 4.11 Trefniadau Trawsffiniol

Mae tîm Cynnig Gofal Plant Sir y Fflint yn gweithredu fel Awdurdod Darparu ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir Dinbych i brosesu'r Cynnig Gofal Plant i blant 3-4 oed ar draws y 3 sir. Mae cytundebau trawsffiniol ar gyfer AddysgGynnar wedi'i hariannu i blant 3 oed mewn lle gyda Swydd Gaer a Gorllewin Swydd Gaer a Dwyrain Swydd Gaer ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir Ddinbych.

Mae'r Rheolwr Cefnogi Blynyddoedd Cynnar yn mynychu cyfarfodydd Swyddogion Arweiniol y Cynnig Gofal Plant chwarterol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir Ddinbych a chyfarfodydd chwarterol Cynrychiolwyr Ardaloedd Cymru Gyfan Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Mae'r Rheolwr Cefnogi Blynyddoedd Cynnar hefyd yn mynychu cyfarfodydd cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Plant a'r Cynnig Gofal Plant. Mae rheolwr Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint yn mynychu cyfarfodydd cenedlaethol a rhanbarthol rheolaidd ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ar draws y Sir.

Mae'r tîm Datblygu Gofal Plant yn prosesu cyllid grant Plant a Chymunedau (gan gynnwys grantiau Gofal Plant a Chwarae a grantiau Cymorth Ychwanegol) ar gyfer plant sy'n byw yn Sir y Fflint, ac mae hyn yn cynnwys plant sy'n mynychu darpariaeth gofal plant cofrestredig mewn awdurdodau cyfagos. Nid oes trefniant tebyg ar gyfer y grant Plant a Chymunedau gan fod gan awdurdodau cyfagos eu meini prawf eu hunain ar gyfer grantiau.

### 4.12 Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu

Lefelau cymwysterau, fesul math o ofal plant:

**<u>Gwarchodwyr Plant</u>**

| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | **Teitl y Swydd** | **Nifer** |
|---|---|---|
| Lefel 2 | Ymarferwyr Gofal Plant | 9 |
| | Ymarferwyr Chwarae | 3 |

| **Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru** | **Teitl y Swydd** | **Nifer** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Lefel 3 | Ymarferwyr Gofal Plant | 23 |
| | Ymarferwyr Chwarae | 7 |

| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | Teitl y Swydd | Nifer |
|---|---|---|
| Lefel 5 | Ymarferwyr Gofal Plant | 13 |
| | Ymarferwyr Chwarae | 0 |

| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | Teitl y Swydd | Nifer |
|---|---|---|
| Heb nodi | Ymarferwyr Gofal Plant | 28 |
| | Ymarferwyr Chwarae | 18 |

| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | Teitl y Swydd | Nifer |
|---|---|---|
| Dim | Ymarferwyr Gofal Plant | 18 |
| | Ymarferwyr Chwarae | 13 |

**Gofal Diwrnod Llawn**

| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | Teitl y Swydd | Nifer |
|---|---|---|
| Lefel 2 | Ymarferwyr Gofal Plant | 43 |
| | Ymarferwyr Chwarae | 12 |

| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | Teitl y Swydd | Nifer |
|---|---|---|
| Lefel 3 | Ymarferwyr Gofal Plant | 259 |

| | | |
|---|---|---|
| | Ymarferwyr Chwarae | 51 |

| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | Teitl y Swydd | Nifer |
|---|---|---|
| Heb nodi | Ymarferwyr Gofal Plant | 65 |
| | Ymarferwyr Chwarae | 21 |

| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | Teitl y Swydd | Nifer |
|---|---|---|
| Dim | Ymarferwyr Gofal Plant | 83 |
| | Ymarferwyr Chwarae | 90% |

**Gofal Dydd Sesiynol**

| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | Teitl y Swydd | Nifer |
|---|---|---|
| Lefel 2 | Ymarferwyr Gofal Plant | 0 |
| | Ymarferwyr Chwarae | 0 |

| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | Teitl y Swydd | Nifer |
|---|---|---|
| Lefel 3 | Ymarferwyr Gofal Plant | 23 |
| | Ymarferwyr Chwarae | 3 |

| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | Teitl y Swydd | Nifer |
|---|---|---|
| Lefel 5 | Ymarferwyr Gofal Plant | 10 |

| | | |
|---|---|---|
| | Ymarferwyr Chwarae | 2 |

| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | Teitl y Swydd | Nifer |
|---|---|---|
| Heb nodi | Ymarferwyr Gofal Plant | 9 |
| | Ymarferwyr Chwarae | 3 |

| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | Teitl y Swydd | Nifer |
|---|---|---|
| Dim | Ymarferwyr Gofal Plant | 8 |
| | Ymarferwyr Chwarae | 7 |

**Gofal y Tu Allan i'r Ysgol**

| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | Teitl y Swydd | Nifer |
|---|---|---|
| Lefel 2 | Ymarferwyr Gofal Plant | 19 |
| | Ymarferwyr Chwarae | 20 |

| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | Teitl y Swydd | Nifer |
|---|---|---|
| Lefel 3 | Ymarferwyr Gofal Plant | 64 |
| | Ymarferwyr Chwarae | 63 |


| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | Teitl y Swydd | Nifer |
|---|---|---|
| Lefel 5 | Ymarferwyr Gofal Plant | 23 |

| | | |
|---|---|---|
| | Ymarferwyr Chwarae | 3 |

| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | Teitl y Swydd | Nifer |
|---|---|---|
| Heb nodi | Ymarferwyr Gofal Plant | 47 |
| | Ymarferwyr Chwarae | 28 |

| Lefel Uchaf o Gymwysterau Perthnasol - Cyngor Gofal Cymru | Teitl y Swydd | Nifer |
|---|---|---|
| Dim | Ymarferwyr Gofal Plant | 28 |
| | Ymarferwyr Chwarae | 40 |

Mae'r data o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn dangos bod 94% o ddarparwyr gofal diwrnod llawn, 72% o ddarparwyr gofal y tu allan i'r ysgol a 94% o ddarparwyr gofal dydd sesiynol wedi nodi bod ganddynt aelod dynodedig o staff sy'n gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol / anghenion meddygol cymhleth. Dim ond 38% o warchodwyr plant wnaeth nodi bod ganddynt gyfrifoldeb dros hyn, fodd bynnag, mae nifer uwch o warchodwyr plant yn gofalu am blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar hyn o bryd. Mae hyn felly'n awgrymu bod rhywfaint o ddryswch wedi bod mewn perthynas ag ystyr y cwestiwn hwn a dylid mynd i'r afael â'r bwlch hwn drwy hyfforddiant pellach. Fel y gwelir isod, mae 57.2% o'r gweithlu gofal plant yn Sir y Fflint, o'r lleoliadau sydd wedi ymateb, wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol i gefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.




Roedd hyn yn cynnwys 37% o warchodwyr plant a nododd bod ganddynt hyfforddiant arbenigol ychwanegol i gefnogi plant gydag anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, o'i gymharu â 78% o ddarparwyr gofal diwrnod llawn, 50% o ddarparwyr gofal dydd sesiynol a 80.5% o ddarparwyr gofal y tu allan i'r ysgol. O'r 3 darpariaeth Meithrinfa a ymatebodd, roedd gan bob un ohonynt aelod dynodedig o staff yn cefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac roedd bob un wedi derbyn hyfforddiant i gefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Ar gyfer lleoliadau sydd ag o leiaf 1 plentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, roedd 82.9% o staff wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol neu arbenigol i gefnogi plant ag anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.

### 4.13 Ansawdd y Ddarpariaeth

Mae Tabl 23 yn dangos bod cyfanswm o 34 o ddarparwyr gofal plant yn Sir y Fflint wedi derbyn sgôr o Ardderchog ym mhob un o Feysydd yr Adolygiad o Ansawdd Gofal.

Derbyniodd 175 allan o 199 o ddarparwyr sgôr o 'Ardderchog' neu 'Da iawn' ym mhob un o Feysydd yr Adolygiad o Ansawdd Gofal.

Mae'r darparwyr a dderbyniodd sgôr 'Digonol' ym mhob maes wedi'u lleoli yn Ardaloedd Cymunedol 4 a 5.

### 4.14 Canfyddiadau gan ddarparwyr a Nanis anghofrestredig

Mae 9 o leoliadau anghofrestredig yn Sir y Fflint ar hyn o bryd, mae'r rhain i gyd yn glybiau ar ôl ysgol, a chwblhaodd 5 ohonynt y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth gyda chymorth gan dîm Datblygu Gofal Plant Cyngor Sir y Fflint. Cyfanswm y plant ar lyfrau'r darparwyr oedd 119 yn ystod

tymor yr haf 2021. Mae’r darparwyr hyn i gyd yn darparu gofal plant cyfrwng Saesneg, gyda Chymraeg fel ail iaith, ac maent wedi’u lleoli yn y wardiau canlynol:

- Shotton Uchaf
- Gwernymynydd
- Trelawnyd a Gwaenysgor
- Gwernymynydd
- Chwitffordd

Yr amseroedd agor a chau mwyaf cyffredin ar gyfer y clybiau ar ôl ysgol hyn oedd 3:15pm – 6pm, yn ystod y tymor yn unig.

Yn ôl ymatebion y darparwyr anghofrestredig, mae 2 o blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn derbyn gofal plant ar hyn o bryd. Dim ond 1 darparwr anghofrestredig sy’n cynnig hyfforddiant ychwanegol i gefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar hyn o bryd. Mae’r staff yn y lleoliadau anghofrestredig hyn yn meddu ar y cymwysterau canlynol:

- Diploma BTEC mewn nyrsio meithrin/arall
- Statws Athro Cymwysedig, CALU
- 1 aelod o staff yn gweithio tuag at gymhwyster Gwaith Chwarae a hylendid bwyd Lefel 2
- Dysgu a Datblygu gofal plant, gan weithio tuag at fod yn Weithiwr Chwarae
- Rhifedd a Llythrennedd City & Guilds, NVQ Lefel 2, Gofal ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar Lefel 3, Gofal Lefel 3

Mae 1 Nani cymeradwy gwirfoddol Arolygiaeth Gofal Cymru yn Sir y Fflint ar hyn o bryd, sy’n darparu gofal plant cyfrwng Saesneg yn bennaf. Mae’r darparwr yn gofalu am 7 o blant ar hyn o bryd, gan gynnwys 1 plentyn gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae bob un o’r plant hyn yn derbyn gofal llawn amser. Mae’r Nani’n darparu gofal plant ar ôl 6pm ar hyn o bryd, ond nid dros nos, a nid oes unrhyw lefydd gwag ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae’r Nani wedi derbyn cais gan rieni yn ddiweddar.

### 4.15 Prif ganfyddiadau gan ddarparwyr

- Mae nifer uchel o lefydd gwag mewn lleoliadau gofal plant mewn rhai ardaloedd, megis Ardaloedd Cymunedol 1, 4 a 7. Y darparwyr gofal plant â’r nifer uchaf o lefydd gwag oedd darparwyr gofal diwrnod llawn a chlybiau ar ôl yr ysgol.
- Ychydig iawn o ddarparwyr oedd â rhestrau aros ar draws y sir, ac roedd y rhestrau aros mwyaf yn y wardiau o fewn Ardaloedd Cymunedol 1 a 2, ac ar gyfer gofal diwrnod llawn neu ofal cyn ysgol.
- Mae diffyg darparwyr gofal plant sy’n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac nid oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg o gwbl mewn rhai llefydd.
- Mae’r mwyafrif o ddarparwyr gofal plant yn darparu’r Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant rhwng 3 a 4 oed ac mae 33 o ddarparwyr gofal plant yn derbyn cyllid i gynnig darpariaeth Dechrau’n Deg ar hyn o bryd.

- Yr ardaloedd drytaf ar gyfer gofal plant ar gyfartaledd oedd Ardal Gymunedol 5 ac Ardal Gymunedol 7. Yr ardal rataf ar gyfer gofal plant, ar gyfartaledd, oedd Ardal Gymunedol 3.
- Ardaloedd Cymunedol 2 a 3 sydd â'r nifer uchaf o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r mwyafrif o ddarparwyr wedi'u hyfforddi neu'n gymwys i ofalu am blant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Y math o ddarparwr â'r nifer uchaf o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yw darparwyr ysgol, rheswm posibl dros hyn yw bod y darparwyr yn gofalu am blant hŷn sydd efallai'n fwy tebygol o fod wedi cael eu hasesu neu wedi derbyn diagnosis o Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Mae'r mwyafrif o ddarpariaethau gofal plant ansawdd uchel wedi'u lleoli yn Ardal Gymunedol 1. Mae llai o ddarparwyr yn Ardaloedd Cymunedol 3 a 7 sydd wedi derbyn sgôr o Ardderchog mewn 3 neu fwy o feysydd.
- Roedd bron i 10% o ddarparwyr yn teimlo bod COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar eu busnes, i'r fath raddau na fyddent yn gallu parhau â gofal plant ymhen 6 mis. Nid oedd nifer o ddarparwyr yn siŵr pa effaith roedd y pandemig wedi'i chael ar gynaliadwyedd ariannol ar adeg casglu'r data. Nododd nifer o ddarparwyr hefyd bod diffyg hyfforddiant digonol yn ystod y pandemig, yn bennaf yn sgil diffyg argaeledd.
- Ychydig iawn o ddarparwyr gofal plant sy'n ddarparwyr Meithrinfa ac mae'r ddarpariaeth Nanis yn brin iawn yn y sir ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'n ymddangos bod galw am y math yma o ofal.

# 5. Canlyniadau'r Arolwg Rhieni

## 5.1 Cyd-destun

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â rhieni a gofalwyr ar draws bob awdurdod lleol yng Nghymru drwy arolwg SmartSurvey ar-lein a gynhaliwyd rhwng 1 Hydref a 31 Hydref 2021. Bwriad yr arolwg oedd deall anghenion gofal plant rhieni/gofalwyr gyda phlant rhwng 0 a 17 oed, yn arbennig eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau cofrestredig (h.y. gwasanaethau sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru) a gofal plant anghofrestredig (e.e. nanis, au pairs, clybiau chwaraeon/gweithgareddau ac ati.). Derbyniwyd 400 o ymatebion gan rieni/gofalwyr ar draws Cyngor Sir y Fflint, sy'n cynrychioli 4.69% o'r holl ymatebwyr ar draws Cymru.

Er bod nifer y rhieni/gofalwyr sydd wedi ymateb wedi cynyddu o 77% ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diwethaf, dim ond canran bychan o'r 157,264 sy'n byw yn y sir a gaiff eu cynrychioli gan yr ymatebwyr i'r arolwg ar-lein ac felly dylid cydnabod cyfyngiadau'r data a ddadansoddir isod.

## 5.2 Nodweddion economaidd-gymdeithasol y rhieni a ymatebodd

O ran cyfrifoldebau gofalu/rhieni, cofnodwyd yr ymatebion canlynol pan ofynnwyd i rieni pa rai o'r canlynol sy'n disgrifio eu haelwyd orau.

| Ymateb | Canran o'r Cyfanswm |
|---|---|
| Mae gennyf gyfrifoldeb llwyr dros fy mhlant | 12.5% |
| Rwy'n rhannu cyfrifoldeb dros fy mhlant gyda rhywun sy'n byw gyda mi | 81.5% |
| Rwy'n rhannu cyfrifoldeb dros fy mhlant gyda rhywun nad ydynt yn byw gyda mi | 5.8% |
| Rwy'n ddarpar-riant | 0.5% |
| Rwy'n ofalwr maeth | 2.0% |
| Rwy'n nain/taid | 0.8% |

Fel y gwelir uchod, mae'r mwyafrif o ymatebwyr yn rhannu cyfrifoldeb dros eu plant gyda rhywun sy'n byw gyda nhw, gyda 12.5% yn unig rieni. Roedd 2.0% yn ofalwyr maeth.

O ran statws cyflogaeth/hyfforddiant ymatebwyr, roedd y mwyafrif helaeth ohonynt mewn cyflogaeth ar hyn o bryd (86.8%), gyda 2.0% heb swydd ar hyn o bryd ond yn chwilio am gyflogaeth (gweler Tabl 16).

Pan ofynnwyd iddynt beth yw incwm gros yr aelwyd bob wythnos, roedd yr ymatebion fel a ganlyn. Dylid nodi bod nifer o ymatebwyr wedi dewis **peidio ag** ateb y cwestiwn hwn (oddeutu 21%, gweler Tabl 17).

Nododd 33 o rieni eu bod yn derbyn yr elfen Gofal Plant o'r Credyd Treth Gwaith / Cynhwysol, ac roedd 130 pellach yn derbyn Talebion Gofal Plant / Gofal Plant Di-Dreth. Roedd 3 rhiant yn hawlio Grant Gofal Plant i Fyfyrwyr a 3 arall yn hawlio cyfraniad cyflogwr.

| Ymateb | Canran o'r Cyfanswm | Nifer |
|---|---|---|
| Elfen Gofal Plant o'r Credyd Treth Gweithio/Credyd Cynhwysol | 8.3% | 33 |
| Talebau gofal plant/gofal plant heb dreth | 32.5% | 130 |
| Grant Gofal Plant i Fyfyrwyr | 0.8% | 3 |
| Cyfraniadau Cyflogwyr | 0.8% | 3 |

Fel y nodir isod, mae 91.8% o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi nodi eu hunain fel Cymreig / Saesnig / Albanaidd / Gogledd Iwerddon / Prydeinig, sydd yn unol â demograffeg Sir y Fflint (gweler Adran 3).

| Ymateb | Canran o'r Cyfanswm | Nifer |
|---|---|---|
| Saesneg / Cymraeg / Albanaidd / Gwyddel o Ogledd Iwerddon / Prydeinig | 91.8% | 367 |
| Gwyddelig | 0.3% | 1 |
| Pwylaidd | 1.5% | 6 |
| Rwmanaidd | 0.8% | 3 |
| Lithwanaidd | 0.3% | 1 |
| Ewropeaidd | 0.5% | 2 |
| Ewropeaidd Gwyn | 0.3% | 1 |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall | 1.8% | 7 |

Ar gyfer cefndiroedd cymysg ac eraill, darparwyr yr ymatebion canlynol:

| Ymateb | Canran o'r Cyfanswm | Nifer |
|---|---|---|
| Gwyn a Du Caribïaidd | 0.8% | 3 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 0.3% | 1 |
| Gwyn ac Asiaidd | 1.0% | 4 |
| Gwyn - Prydeinig a Tsieineaidd | 0.3% | 1 |


| | | |
|---|---|---|
| Gwyn - Prydeinig a Ffilipinaidd | 0.3% | 1 |
| Affricanaidd | 0.3% | 1 |
| Biale (Gwlad Pŵyl) | 0.3% | 1 |

### 5.3 Defnydd cyfredol o ofal plant


Fel y nodir isod, roedd bron i hanner yr ymatebion gan rieni â 2 o blant, gyda 31.8% gan rieni ag 1 plentyn.

| Ymateb | Canran o'r Cyfanswm |
|---|---|
| 0 | 0.5% |
| 1 | 31.8% |
| 2 | 45.8% |
| 3 | 8.5% |
| 4 | 2.8% |
| 5 | 0.3% |
| 6 | 0.3% |
| 7 | 0.3% |
| Amherthnasol | 10.0% |


Gofynnwyd i rieni a yw eu plentyn (3-4 oed) yn cael mynediad at le Addysg Gynnar wedi'i ariannu mewn ysgol neu feithrinfa ar hyn o bryd. Yn ôl yr ymatebion i'r arolwg, mae 45.5% yn cael mynediad at le yn yr un awdurdod lleol ag y maent yn byw ynddo, gydag ond 2.8% yn nodi eu bod yn cael mynediad at le Addysg Gynnar mewn awdurdod lleol arall. Ni wnaeth gweddill y rhieni gwblhau'r cwestiwn hwn.





Gofynnwyd hefyd i rieni a oedd eu plant 3 neu 4 oed yn derbyn gofal plant wedi’i ariannu gan y llywodraeth drwy’r Cynnig Gofal Plant ar hyn o bryd, dywedodd 43.5% o’r ymatebwyr bod ganddynt le yn yr un awdurdod lleol ag y maent yn byw ynddo ar hyn o bryd. Nododd 2.5.% o’r ymatebwyr y byddant o bosibl yn cael mynediad at y Cynnig Gofal Plant yn y dyfodol, ac nad oedd gan 2.5% ohonynt unrhyw gynlluniau i dderbyn y cynnig.




Nododd 63.2% o’r ymatebwyr nad oedd eu plentyn blwydd neu ddyflwydd oed yn cael mynediad at ofal plant Dechrau’n Deg ar hyn o bryd, gyda 9.4% yn nodi bod eu plentyn yn cael mynediad at ofal plant ar hyn o bryd. Nododd 11.7% ohonynt nad oeddent yn siŵr.





Pan ofynnwyd a ydynt yn dymuno cael mynediad at ofal plant a ariennir drwy'r llywodraeth unwaith y bydd eu plentyn yn 3 oed ac yn gymwys, nododd 93.8% 'Ydw' fel ateb, gydag ond 4.2% yn nodi 'Nac ydw' fel ateb.




O ran Anghenion Dysgu Ychwanegol a/neu anabledd neu salwch tymor hir, nid oedd gan y mwyafrif o rieni a ymatebodd blentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu anabledd (gweler isod). Fel y gwelir, nid oes gan 90% o rieni blentyn ag anabledd neu salwch tymor hir, ac nid oes gan 87% o rieni blentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

A oes gan unrhyw rai o'ch plant anabledd neu salwch hirdymor?




A oes gan unrhyw rai o'ch plant anghenion addysg arbennig/anghenion dysgu ychwanegol?



Rhestrodd y rhieni ystod o ddarparwyr a mathau o ofal plant y maent yn eu defnyddio yn yr arolwg. Fel y nodir yn y tablau isod, y ddarpariaeth gofal plant fwyaf cyffredin yn ystod y tymor a'r gwyliau yw ffrindiau/teulu (di-dâl), gyda meithrinfa dydd preifat yn ail, eto yn ystod y tymor a'r gwyliau.

| Math o ofal plant/addysg gynnar | Nifer y rhieni sy'n defnyddio math o ofal plant (yn ystod y tymor) |
|---|---|
| Gwarchodwr Plant | 30 |
| Cyn Ysgol/Clwb Brecwast | 139 |
| Clwb ar ôl Ysgol | 128 |
| Meithrinfa Ddydd Breifat | 172 |
| Meithrinfa'r Ysgol | 102 |
| Grŵp chwarae | 44 |
| Cylch Meithrin | 18 |
| Meithrinfa Gollwng | 1 |
| Nani | 2 |
| Au Pair | 0 |
| Teulu/Ffrindiau (â thâl) | 9 |
| Teulu/Ffrindiau (di-dâl) | 186 |
| Dim yn ystod y tymor | 32 |

| Math o ofal plant/addysg gynnar | Nifer y rhieni sy'n defnyddio math o ofal plant (gwyliau) |
|---|---|
| Gwarchodwr Plant | 23 |
| Gwersylloedd Gwyliau | 44 |
| Meithrinfa Ddydd Breifat | 169 |
| Ysgol Baratoi (Preifat) | 0 |
| Grŵp chwarae | 9 |
| Cylch Meithrin | 4 |
| Meithrinfa Gollwng | 0 |
| Nani | 2 |

| | |
|---|---|
| Au Pair | 0 |
| Cynllun Chwarae | 23 |
| Teulu/Ffrindiau (â thâl) | 11 |
| Teulu/Ffrindiau (di-dâl) | 188 |
| Dim yn ystod Gwyliau'r Ysgol | 50 |

Wrth benderfynu faint o oriau mae rhieni'n defnyddio gofal plant ar gyfartaledd bob wythnos, mae'r tabl canlynol yn darparu crynodeb o faint o oriau, ar gyfartaledd, mae rhieni'n defnyddio gofal plant yn Sir y Fflint. Fel y gwelir, mae rhieni, ar gyfartaledd, yn defnyddio 24.4 awr o ofal plant yr wythnos yn ystod y tymor yn Sir y Fflint, a 23.4 awr yr wythnos yn ystod gwyliau ysgol.

| **Yn ystod y tymor** | **Cyfartaledd** |
|---|---|
| O leiaf (oriau) | 23.0 |
| Ar gyfartaledd (oriau) | 24.4 |
| Ar y mwyaf (oriau) | 26.6 |
| **Yn ystod gwyliau ysgol** | **Cyfartaledd** |
| O leiaf (oriau) | 22.7 |
| Ar gyfartaledd (oriau) | 23.4 |
| Ar y mwyaf (oriau) | 26.1 |


Roedd y mwyafrif o rieni'n talu rhwng £10 a £199 yr wythnos am eu gofal plant. Roedd canran bychan (4.5%) yn talu dros £300 y mis am ofal plant. Roedd y rheiny a nododd eu bod yn talu dros £300 am ofal plant wedi'u lleoli yn yr ardaloedd cymunedol canlynol (nifer yr ymatebwyr mewn cromfachau):

- Ardal Gymunedol 1 (6)
- Ardal Gymunedol 2 (1)
- Ardal Gymunedol 3 (1)
- Ardal Gymunedol 4 (5)
- Ardal Gymunedol 6 (1)
- Ardal Gymunedol 7 (1)

| **Cost** | **Cyfartaledd** |
|---|---|
| £0 | 17.0% |
| £1-£10 | 3.3% |
| £10-£49 | 19.0% |

| | |
|---|---|
| £50-£99 | 15.5% |
| £100-£199 | 23.5% |
| £200-£299 | 7.8% |
| £300+ | 4.5% |

Mae'r mwyafrif helaeth o rieni'n hapus gydag ansawdd y ddarpariaeth, fel y gwelir isod:




O'r rheiny a nododd eu bod yn anfodlon â'u trefniadau gofal plant, nodwyd y rhesymau canlynol. Fel y gwelir, fforddiadwyedd oedd y brif broblem, a hyblygrwydd yn ail.

| Ymateb | Canran o'r Cyfanswm | Nifer |
|---|---|---|
| Rhagor o oriau ar gael | 0.8% | 3 |
| Ymestyn oriau agor - yn gynnar yn y bore | 1.0% | 4 |
| Ymestyn oriau agor - gyda'r nosau | 0.5% | 2 |
| Ymestyn oriau agor - ar benwythnosau | 0.0% | 0 |
| Ymestyn oriau agor - gofal dros nos | 0.3% | 1 |
| Sesiynau mwy hyblyg | 1.8% | 7 |


| | | |
|---|---|---|
| Mwy fforddiadwy | 3.0% | 12 |
| Lleoliadau gwahanol | 0.0% | 0 |
| Gofal plant sy'n bodloni anghenion dysgu ychwanegol fy mhlentyn yn well | 0.3% | 1 |
| Darpariaeth o ansawdd gwell | 1.3% | 5 |

Darparwyd nifer o resymau pam nad oedd rhai rhieni'n defnyddio gofal plant ar hyn o bryd, fel sydd wedi'u nodi yn y tabl isod.

| Ymateb | Canran o'r Cyfanswm | Nifer |
|---|---|---|
| Mae fy mhlentyn ar restr aros am ddarparwr ac rydym yn aros nes y bydd lle ar gael | 0.5% | 2 |
| Rwy'n defnyddio gofal plant anffurfiol megis aelod o deulu neu ffrind | 9.3% | 37 |
| Rwy'n dewis peidio â defnyddio gofal plant o gwbl | 1.5% | 6 |
| Rwy'n aros gartref i edrych ar ôl fy mhlant ac nid oes arnaf angen gofal plant. | 2.5% | 10 |
| Mae fy mhlant yn ddigon hen i edrych ar ôl eu hunain | 1.3% | 5 |
| Ni allaf ddod o hyd i ddarpariaeth gofal plant o ansawdd digonol | 1.5% | 6 |
| Nid oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg priodol | 0.3% | 1 |
| Nid oes darpariaeth briodol yn ein hiaith (nid Cymraeg na Saesneg) | 0.3% | 1 |
| Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg i'm anghenion | 3.3% | 13 |
| Mae costau gofal plant yn rhy ddrud | 9.8% | 39 |
| Nid yw amseroedd gofal plant yn addas i mi | 1.8% | 7 |
| Nid oes gofal plant ar gael sy'n addas i oedran fy mhlentyn | 1.5% | 6 |
| Problemau â chludiant | 1.0% | 4 |
| Nid oes gofal plant ar gael mewn lleoliad addas i mi | 1.8% | 7 |


| | | |
|---|---|---|
| Nid oes darpariaeth gofal plant sy'n gallu darparu ar gyfer anghenion arbennig fy mhlentyn | 1.8% | 7 |
| Dim ond ar sail ad hoc y gallaf ddefnyddio gofal plant ac mae'n amhosibl cynllunio | 1.8% | 7 |

Gofynnwyd i rieni a ydynt yn cael mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg, mae'r ymatebion wedi'u hamlinellu isod.




Fel y gwelir uchod, mae 10.3% o rieni'n cael mynediad at ofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r mwyafrif (56.3%) yn cael mynediad at ofal plant drwy gyfrwng arall.

I'r rhai a nododd 'Nac ydw' fel ateb, nododd 5.7% ohonynt yr hoffent gael mynediad at ofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler isod).




O ran y rhwystrau i ofal plant cyfrwng Cymraeg, nodwyd y ffactorau canlynol fel y prif broblemau a wynebir gan rieni mewn perthynas â mynediad at ddarpariaeth. Fel y gwelir, argaeledd yw'r prif rwystr ar gyfer rhieni.

| Ymateb | % yr ymatebwyr a nododd 'hoffwn/efallai' fel ateb | Nifer |
|---|---|---|
| Pellter | 26.0% | 13 |
| Argaeledd | 42.0% | 21 |
| Ansawdd Gofal | 6.0% | 3 |
| Gallu ieithyddol staff | 10.0% | 5 |
| Costau | 18.0% | 9 |
| Dim digon o oriau gofal | 18.0% | 9 |

Yn ogystal â hyn, gofynnwyd i rieni a ydynt yn gallu deall, ysgrifennu, darllen neu ysgrifennu yn Gymraeg. Yn ôl yr arolwg, nododd 127 o'r ymatebwyr eu bod yn gallu deall Cymraeg, gyda 75 yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg, 69 yn gallu darllen Cymraeg a 52 yn gallu ysgrifennu yn Gymraeg.


| Ymateb | Canran yr Ymatebwyr | Nifer |
|---|---|---|
| Deall | 31.8% | 127 |

| | | |
|---|---|---|
| Siarad | 18.8% | 75 |
| Darllen | 17.3% | 69 |
| Ysgrifennu | 13.0% | 52 |

Gofynnwyd i rieni i ba raddau roeddent yn cytuno gydag ystod o ddatganiadau mewn perthynas â darpariaeth eu plentyn. Gweler yr ymatebion yn Nhabl 18. Fel y gwelir, roedd y mwyafrif o rieni'n cytuno eu bod yn fodlon â gofal plant yn ystod y tymor ac yn credu bod y gofal plant o ansawdd uchel.


Fel y gwelir yn y tabl uchod, mae cryfderau amlwg yn y ddarpariaeth gofal plant o safbwynt rhieni, ynghyd â meysydd allweddol i'w gwella. Er enghraifft, roedd y mwyafrif o rieni'n cytuno bod y ddarpariaeth gofal plant o ansawdd uchel a'u bod yn fodlon â'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, roedd mwyafrif sylweddol hefyd yn cytuno bod gofal plant yn rhy ddrud, ac yn teimlo hefyd nad oeddent yn gwybod ble i ddod o hyd i gymorth ariannol mewn perthynas â gofal plant.

Nododd tua 50% o rieni bod gofal plant wedi achosi problemau mewn perthynas â'u gwaith, gyda 13.0% pellach yn nodi bod gofal plant wedi eu hatal rhag gweithio o gwbl (gweler isod).





### 5.4 Galw am ofal plant i'r dyfodol

Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i ymatebwyr ragweld p'un a fydd arnynt angen mwy neu lai o ofal plant yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae'r ymatebion fel a ganlyn.




O’r rheiny a oedd yn rhagweld y byddant yn defnyddio llai o ofal plant, y rheswm mwyaf cyffredin dros hynny oedd y byddai eu plant yn hŷn, roedd 3 rhiant yn rhagweld y byddent yn treulio llai o oriau yn gweithio/astudio ac roedd 3 rhiant yn rhagweld y byddent yn gweithio/astudio o gartref. Soniodd 2 riant eu bod yn ceisio treulio rhagor o amser gyda’u teulu.

O’r rheiny a oedd yn rhagweld y byddent angen rhagor o ofal plant, roedd y mwyafrif ohonynt yn rhagweld y byddent yn ymofyn hynny cyn ysgol, gydag ar ôl ysgol yn ail agos (gweler isod).




## 5.5 Prif ganfyddiadau o'r arolwg rhieni

- Mae darpariaeth gofal plant, neu'r diffyg darpariaeth gofal plant, wedi achosi problemau i nifer o rieni mewn perthynas â'u gwaith
- Mae'r mwyafrif helaeth o rieni'n teimlo bod y ddarpariaeth o ansawdd uchel, ond mae nifer hefyd yn credu ei bod yn rhy ddrud ac nid ydynt yn siŵr ble i ddod o hyd i wybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant
- Nid yw'r mwyafrif o rieni'n cael mynediad at ofal plant a ariennir, naill ai yn Sir y Fflint neu mewn awdurdod lleol cyfagos.
- Dibyniaeth ar deulu/ffrindiau (di-dâl) yw'r math mwyaf cyffredin o ddarpariaeth gofal plant i rieni, sy'n awgrymu bod bwlch amlwg o ran gofal plant ffurfiol i fodloni anghenion rhieni.

# 6. Canlyniadau Arolygon Ysgol

## 6.1 Cyd-destun

I gefnogi dealltwriaeth mewn perthynas â darpariaeth gofal estynedig ar draws y sir, arolygwyd disgyblion cynradd ac uwchradd ar draws Sir y Fflint drwy arolygon ar-lein, dienw ynghyd ag arolwg ychwanegol ar gyfer penaethiaid ystod o leoliadau ar draws y sir. Roedd yr arolygon yn seiliedig ar ddarpariaeth ar ôl ysgol yn bennaf, gyda chwestiynau mewn perthynas â mynediad, argaeledd, fforddiadwyedd ac ansawdd gofal estynedig. Mae canfyddiadau bob un o'r arolygon wedi'u nodi isod.

## 6.2 Arolwg ysgolion cynradd

Paratôdd Cyngor Sir y Fflint becyn ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar gyfer ysgolion cynradd a darparwyr y tu allan i'r ysgol yn Sir y Fflint. Roedd y pecyn yn cynnwys gweithgareddau amrywiol i'w cwblhau yn y dosbarth neu yn y clwb gyda disgyblion. Ar ôl i'r ysgolion gwblhau'r gweithgareddau, darparwyd taflen iddynt ei llenwi a'i hanfon at Grŵp Cynghori Premier, yn manylu ar ymatebion o'r gweithgareddau.

Derbyniwyd 2 ymateb gan Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Esgob a Busy Rascals. Cafwyd caniatâd gan y rhieni/gofalwyr a gymerodd ran.

Yn Ysgol Trelawnyd, cymerodd plant ran mewn sesiynau Trafod Syniadau, Dwylo a 'Mae'r Gwynt yn Chwythu'. Cwblhawyd y gweithgareddau yn olynol ac atgoffwyd plant o ystod o weithgareddau ar ôl ysgol y mae rhai plant yn eu mynychu. Gofynnwyd cwestiynau i 17 o blant ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4, gan ddefnyddio'r gweithgareddau a awgrymwyd. Roedd y cyfranogwyr rhwng 7 a 9 oed.

Cwblhaodd y plant yn Busy Rascals y gweithgareddau Dwylo, Celf a Syniadau. Roedd y cyfranogwyr rhwng 3 a 10 oed.

Soniodd y plant yn Ysgol Trelawnyd am y gweithgareddau i ddechrau, gan ddweud mai'r gweithgaredd YouTube oedd eu ffefryn; ac roedd chwarae gyda ffrindiau a'u gwahodd draw ar ôl ysgol hefyd yn atebion poblogaidd. Pan ofynnwyd i'r plant pa weithgareddau y byddent yn awyddus i'w gwneud, roedd nofio yn awgrym poblogaidd, fodd bynnag, dim ond 3 allan o 17 o'r plant oedd yn gwneud hyn yn rheolaidd.

Roedd y sylwadau gan ddisgyblion yn cynnwys:

- *"Rydym yn dysgu sgiliau, gwneud ffrindiau ac yn cael hwyl."*
- *"Nid wyf yn hoffi bod yn oer!"*
- *"Mae nofio'n ffordd dda o ymarfer y corff, mae arnom ni angen mwy o le i nofio."*

Yn ôl yr ymatebion hyn, roedd 10 allan o 17 o blant yn mynychu rhyw fath o glwb ar ôl ysgol, gydag 14 allan o 17 ohonynt yn nodi eu bod yn aml yn mynd i'r cae chwarae ar ôl ysgol. Nododd 9 allan o 18 o blant eu bod yn mynd i dai neiniau a theidiau ar ôl ysgol ar ryw adeg yn y dydd. Dim ond 2 allan o 17 o blant oedd yn mynychu Clybiau / Brownis, gydag 1 ymatebydd yn nodi:

*“Rydym yn gwneud gormod o waith celf mewn Clybiau. Mae arnaf eisiau chwarae mwy o gemau.”*

Dywedodd disgybl arall:

*“Rwy’n hoffi mynd adref, newid i fy nillad bob dydd a gwylio YouTube.”*

Nododd un disgybl y byddai’n well ganddynt pe bai llai o bobl yn mynychu’r clybiau, a dywedodd disgybl arall bod chwarae rygbi’n eu cadw’n heini.

Tynnodd y plant yn Busy Rascals luniau o’u hoff weithgareddau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Plentyn sy’n hoffi chwarae Xbox gyda’i frawd
- Plentyn sy’n mwynhau chwarae gyda theganau (gan gynnwys doliau), yn ogystal â thynnu lluniau a bwyta
- Ysgrifennodd plant hŷn (9 a 10 oed) eu bod yn mwynhau gwaith celf neu chwarae ar eu ffôn/cyfrifiadur
- Soniodd plentyn arall am gymnasteg a lliwio

Pan ofynnwyd sut y gellid gwella’r ddarpariaeth, soniodd rhai plant am deganau gwell yn ogystal â threulio mwy o amser yn yr awyr agored. Yn ogystal â hynny, pan ofynnwyd i’r plant ble arall hoffent fynd yn hytrach na’r clwb ar ôl ysgol, ‘Adref’ oedd yr ateb yn aml iawn. Yn yr haf, nododd y plant eu bod yn awyddus i wneud mwy o bethau hwyliog. Yn olaf, pan ofynnwyd pa weithgareddau hoffent eu gwneud yn y clwb ar ôl ysgol, soniodd 3 o’r ymatebwyr eu bod yn mwynhau gwylio ffilmiau a bwyta popgorn.

### 6.3 Arolwg ysgolion uwchradd

Cwblhaodd cyfanswm o 481 o ddisgyblion yr arolwg ar-lein ar draws y sir. Gellir gweld grŵp blwyddyn pob ymatebydd yn Nhabl 11. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr ym mlwyddyn 7 (26.2%), a blwyddyn 9 oedd y grŵp oedran â’r lleiaf o ymatebwyr.

Yn ôl yr ymatebion i’r arolwg, nid yw 20.9% o’r 469 o ddisgyblion a atebodd y cwestiwn hwn yn gwybod a oes unrhyw glybiau ar ôl ysgol yn cael eu darparu yn yr ysgol, gydag 18.30% yn nodi bod 1 neu 2 o glybiau. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd 5-6 clwb gyda 150 allan o 250 o’r ymatebwyr yn nodi’r ateb hwn (Siart 15).

**Presenoldeb clybiau ar ôl ysgol**

Nid yw’r mwyafrif o ymatebwyr i’r arolwg yn mynychu unrhyw glybiau ar ôl ysgol, gyda 75.95% o’r 467 o ymatebwyr yn nodi nad ydynt yn mynychu unrhyw ddarpariaeth ar ôl ysgol (gweler isod).





Y rheswm/rhesymau syml a nodwyd dros beidio â mynychu'r clwb ar ôl ysgol gan y mwyafrif o bobl ifanc oedd nad oedd arnynt eisiau mynychu (gweler y tabl isod).

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Nid oes arnaf eisiau mynychu clybiau ar ôl ysgol | 113 |
| Rwy'n mynd adref gyda rhiant/gofalwr | 31 |
| Rwy'n mynd i glwb nad yw'n cael ei gynnal gan yr ysgol | 40 |
| Rwy'n mynd i dŷ ffrind | 3 |
| Rwy'n mynd i glwb chwaraeon | 16 |
| Rwy'n treulio amser gyda ffrindiau yn fy ardal | 18 |
| Mae'n rhaid i mi ddal y bws adref | 90 |
| Arall | 40 |

I'r rheiny a nododd 'Arall' fel ateb i'r cwestiwn hwn, roedd y rhesymau a nodwyd yn cynnwys nad oeddent yn hoffi'r ddarpariaeth sydd ar gael, eu hoff glybiau'n cael eu canslo a diffyg ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth sydd ar gael, neu flaenoriaethau eraill (h.y. roedd rhai wedi dechrau gweithio, ymrwymiadau gartref megis mynd â chŵn am dro, angen gwneud gwaith cartref, neu wneud pethau eraill megis mynd i'r gampfa, rhedeg, cadetiaid y fyddin).

O'r rheiny a oedd yn mynychu clwb ar ôl ysgol, dim ond unwaith yr wythnos roedd y mwyafrif helaeth ohonynt yn mynychu, gyda 14.7% yn mynychu ddwywaith yr wythnos.  Dim ond 4.3% oedd yn mynychu 5 diwrnod yr wythnos, a 3.45% yn mynychu 4 diwrnod yr wythnos.




Roedd y rhesymau dros fynychu clwb ar ôl ysgol fel a ganlyn:


| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Rwy'n mwynhau mynychu clybiau ar ôl ysgol | 56 |
| Mae fy ffrindiau'n mynd yno | 29 |
| Mae fy rhieni'n gweithio | 7 |
| Arall | 25 |

Ar gyfer y rhai a nododd 'Arall' fel ateb i'r cwestiwn hwn, nododd ymatebwyr eu bod yn cael hwyl ac yn mwynhau'r gweithgareddau a gynigir (h.y. pêl-droed a chadw'n heini). Nododd 2 ohonynt bod eu rhieni eisiau iddynt fynychu'r clwb a nododd 1 eu bod yn mynychu er mwyn gwneud ffrindiau newydd.

**<u>Mathau o glybiau ar ôl ysgol a ddarperir</u>**

Cafwyd amrywiaeth o atebion i'r cwestiwn hwn: 'Pa glybiau ar ôl ysgol wyt ti'n mynd iddyn nhw?' Fel y gwelir yn  Nhabl 19, pêl-droed, pêl-rwyd, hoci a rygbi yw'r clybiau ar ôl ysgol mwyaf poblogaidd ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd Sir y Fflint.

**Barn disgyblion am ddarpariaeth ar ôl ysgol**




O'r rheiny sy'n mynychu clwb ar ôl ysgol, y casgliad cyffredinol oedd bod y ddarpariaeth yn 'Dda iawn' neu'n 'Ardderchog', gydag ond 2 ymatebydd yn nodi bod eu clwb ar ôl ysgol yn 'Wael' a 2 yn nodi ei fod yn 'Wael Iawn' (gweler uchod). Nododd 1 ymatebydd eu bod yn '*cyfarfod pobl â diddordebau tebyg iddyn nhw na fyddent wedi'u cyfarfod fel arall*', a nododd ymatebydd arall ei fod yn *'cynnig rhywbeth i'w wneud yn hytrach nag eistedd o gwmpas yn chwarae ar fy ffôn.'* Roedd 1 ymatebydd o'r farn y dylid cynnal rhagor o glybiau mwy hwyliog ar ôl ysgol.

Pan ofynnwyd 'pa weithgareddau hoffech chi eu gwneud mewn clwb ar ôl ysgol', cafwyd ystod eang o atebion (gweler Tabl 20). Pêl-droed oedd y gweithgaredd mwyaf poblogaidd gydag 108 o ymatebwyr yn ei ddewis fel ateb.  Dewisodd 98 o ymatebwyr weithgareddau coginio, a dewisodd 81 o'r ymatebwyr weithgareddau celf a chrefft.  Y gweithgaredd lleiaf poblogaidd oedd hoci, gydag 19 o ymatebwyr yn dewis y gweithgaredd hwn.

O'r rheiny a nododd 'Arall' fel ateb, mae'r ymatebion wedi'u darparu yn Nhabl 21.

**Effaith y pandemig ar ddarpariaeth ar ôl ysgol**

Mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y profiad o glybiau ar ôl ysgol nifer o ddisgyblion.  Er mai'r ateb mwyaf cyffredin i 'Sut mae COVID-19 wedi newid dy brofiad o glybiau ar ôl ysgol?' oedd 'nid yw wedi newid', nid oedd nifer o'r ymatebwyr hyn yn mynychu clybiau ar ôl ysgol beth bynnag. Nododd nifer o ddisgyblion bod gofal cymdeithasol yn cael effaith ar weithgareddau, roedd hyn yn aml yn golygu nad oedd grwpiau blwyddyn yn cael cymysgu ac roedd yn rhaid iddynt gadw pellter

cymdeithasol. Noddodd nifer fawr o ddisgyblion hefyd bod gostyngiad wedi bod yn nifer y clybiau sy'n cau, neu nad ydynt yn eu mynychu mwyach yn sgil ofnau o ddal COVID-19.

Roedd y sylwadau ychwanegol ar ddiwedd yr arolwg yn pwysleisio'r galw am glybiau a gweithgareddau amgen, gyda chyfeiriadau at gelf, dawnsio, pêl-foli ac osgoi'r bêl. Y sylwadau eraill oedd:-

- *"Hoffwn gael mwy o glybiau merched yn unig a chlybiau gyda grwpiau blwyddyn ar wahân"*
- *"Mae'r clybiau hyn yn caniatáu i mi gyfarfod ffrindiau o ysgolion gwahanol"*
- *"Nid yw clybiau ar ôl ysgol yn cael llawer o effaith ar ein hysgol, rwy'n credu y dylem gael mwy ohonynt. Nid oes llawer o glybiau ar gael"*

### 6.4 Arolwg Ysgolion a Cholegau Addysg Bellach

Cymerodd cyfanswm o 25 o ysgolion ran yn yr arolwg. Mae crynodeb o ysgolion a cholegau addysg bellach ym mhob ward wedi'i amlinellu yn y tabl isod. Ni wnaeth nifer o ysgolion a Cholegau Addysg Bellach ddarparu cod post er mwyn i ni fedru nodi eu ward penodol, ond fe wnaethant nodi'r dref neu'r pentref agosaf, mae'r rhain wedi'u cynrychioli mewn tabl ar wahân. Roedd cod post 1 cyfranogwr wedi'i leoli dros y ffin yn Wrecsam ac roeddent yn mynychu Coleg Cambria (gweler Tabl 13 a Thabl 14).

Y math mwyaf cyffredin o ofal plant a ddarparwyd oedd gofal ar ôl ysgol, gydag 20 allan o 25 o gyfranogwyr yn darparu hyn. Yn ail oedd clwb brecwast â thâl ac am ddim, gydag 16 ac 14 o ysgolion yn cynnig hyn yn y drefn honno. Dim ond 4 ysgol oedd yn cynnig darpariaeth dros y gwyliau ac roedd 6 ysgol yn darparu gofal dydd llawn (gweler Tabl 15).

Dywedodd y mwyafrif o gyfranogwyr (58%) nad oedd ganddynt ddigon o le i ddarparu gofal plant neu ymestyn y ddarpariaeth bresennol. Dywedodd 3 allan o 25 o ysgolion nad oeddent yn siŵr. Gofynnwyd i'r 7 o gyfranogwyr a nododd 'Oes' fel ateb gynnig sylwadau pellach. Dywedodd 2 o'r cyfranogwyr eu bod wedi derbyn grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar a bod adeilad yn cael ei ddatblygu i ddarparu gofal plant, dywedodd un ohonynt eu bod wedi derbyn grant ond ystyriwyd y byddai'n rhy anodd adeiladu ar y safle. Roedd 3 cyfranogwr yn credu bod ganddynt y capasiti i ymestyn y ddarpariaeth gofal plant bresennol, ond dywedodd 2 ohonynt y byddai hynny'n amhosibl heb ymestyn yr adeiladau presennol neu adeiladu rhai newydd.

| A oes gennych chi ofod ar gael o fewn eich ysgol / coleg, lle gellir cynnig darpariaeth gofal plant newydd neu ehangu'r ddarpariaeth bresennol? | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Oes | 7 | 29% |
| Ddim yn siŵr | 3 | 13% |
| Nag oes | 14 | 58% |

Gofynnwyd i gyfranogwyr a oeddent yn credu y byddai teuluoedd yn debygol o ddefnyddio gofal plant pe bai'n fwy fforddiadwy, cafwyd amrywiaeth o ymatebion i hyn. Nododd 2 gyfranogwr y byddai hynny'n annhebygol, a nododd 1 y byddai'n amherthnasol. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr eraill yn cytuno gan ddweud bod nifer o'u teuluoedd eisoes yn defnyddio cynigion gofal plant a ariennir, a dywedodd 1 ymatebydd bod ganddynt ormod o gwsmeriaid yn defnyddio'r Cynnig Gofal Plant 30 awr i blant rhwng 3 a 4 oed a'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg. Dywedodd ymatebydd arall:

*Rydym wedi ein lleoli mewn ardal o amddifadedd, felly byddai costau unrhyw ofal plant yn ystyriaeth bwysig i'n cymuned."*

Rhannodd ymatebydd arall bryder bod diffyg gofal plant fforddiadwy i nifer o deuluoedd, ac nad yw rhieni/gofalwyr yn gallu talu yn aml iawn:

*"Mae nifer o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd talu am y gofal plant maent yn ei dderbyn ar hyn o bryd. Bob wythnos, rydym yn derbyn negeseuon e-bost yn dweud wrthym nad oes digon o arian mewn cyfrifon banc, mae 1 teulu mewn dyled o £300 yr wythnos hon".*

Nododd cyfranogwr arall bod yna bob amser alw am ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Gofynnwyd i gyfranogwyr a oedd unrhyw rieni wedi gofyn iddynt am eu gofynion gofal plant neu ddiffyg gofal plant priodol. Nododd 13 o'r Ymatebwyr 'Nag oes', o'i gymharu â 9 a nododd 'Oes' fel ateb i'r cwestiwn hwn.

| **Ymateb** | **Nifer** | Canran |
|---|---|---|
| Ddim yn gwybod | 2 | 8% |
| Oes | 9 | 38% |
| Nag oes | 13 | 54% |

Gofynnwyd i gyfranogwyr ddarparu sylwadau pellach. Dywedodd 8 o gyfranogwyr bod rhieni eisiau rhagor o ddarpariaeth gofal plant, yn arbennig gofal estynedig. Dywedodd 6 eu bod naill ai'n datblygu rhagor o gapasiti neu'n barod i wneud trefniadau gyda rhieni i gynnig darpariaeth. Dywedodd 1 cyfranogwr bod rhai rhieni wedi cysylltu â nhw ynghylch darpariaeth gofal plant, ond nid digon i hynny fod yn opsiwn hyfyw. Dywedodd ymatebydd arall bod ar rai rhieni eisiau anfon eu plant i'r ysgol ond nad oedd modd iddynt wneud hynny gan nad oedd yr ysgol yn gallu cynnig gofal plant priodol ar eu cyfer. Dywedodd 1 ymatebydd nad yw eu capasiti'n llawn ar hyn o bryd a bod yna bob amser lefydd gwag yn eu clwb ar ôl ysgol i rieni/plant ei ddefnyddio. Gweler Siart 16 am grynodeb o rieni sy'n ymwybodol o ddarparwyr sy'n casglu plant o'r ysgol.

Dywedodd 13 o ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o feithrinfeydd dydd sy'n casglu plant o'u hysgol a dywedodd 11 ohonynt eu bod yn ymwybodol o warchodwyr sy'n gwneud hyn hefyd. Roedd 1 ysgol yn ymwybodol o nani a oedd yn casglu plant o'u lleoliad. Nododd 2 gyfranogwr nad oedd unrhyw ddarparwyr gofal plant yn casglu plant o'u lleoliad addysg.

Yn olaf, gofynnwyd i gyfranogwyr a oeddent yn teimlo bod digon o ofal plant ar gael yn eu hardal leol i fodloni'r galw. Nododd 12 o ymatebwyr 'Oes' fel ateb i'r cwestiwn hwn, o'i gymharu â 6 a nododd 'Nag oes' a 6 arall a ddywedodd nad ydynt yn siŵr.

| **Ymateb** | **Nifer** | Canran |
|---|---|---|
| Ddim yn gwybod | 6 | 25% |
| Nag oes | 6 | 25% |
| Oes | 12 | 50% |

Gofynnwyd i ymatebwyr ddarparu sylwadau pellach ar hyn. Nododd 1 ymatebydd bod y canllawiau COVID-19 a staffio yn rheswm dros y ddarpariaeth annigonol:

*"Dim ond lle i 26 sydd yn y clwb ar hyn o bryd, byddwn yn ystyried addasu'r cyfyngiad hwnnw pan/os byddwn yn gallu cyflogi rhagor o staff, y broblem arall sydd gennym yw arwynebedd llawr ar gyfer bob plentyn yn arbennig yn yr hinsawdd sydd ohoni, mae'r clwb yn parhau i lynu at 2 swigen nes y clywir yn wahanol."*

Nodwyd hefyd bod:

*"Clybiau ar ôl ysgol eraill yn yr ardaloedd cyfagos."*

Nododd cyfranogwr arall na fydd digon o ddarpariaeth unwaith y bydd eu gwasanaeth gofal plant newydd yn weithredol. Nododd 2 gyfranogwr y byddai rhieni'n awyddus i'w lleoliad addysg ddarparu rhagor o ofal plant ar y safle. Nododd 1 cyfranogwr bod yr ysgol eisoes yn darparu gofal estynedig digonol. Amlygodd cyfranogwr arall bod diffyg gofal plant cyfrwng Cymraeg yn eu hardal leol.

### 6.5 Canfyddiadau allweddol mewn perthynas ag ysgolion

- Mae clybiau ar ôl ysgol yn boblogaidd ond roedd disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd yn awyddus i gael rhagor/ ystod ehangach o weithgareddau
- Mae nifer o ddisgyblion uwchradd wedi sylwi ar effaith COVID-19 ar ddarpariaeth
- Mae'r mwyafrif o ddarparwyr yn cynnig gofal ar ôl ysgol, fodd bynnag, nid yw nifer o ysgolion yn gallu ymestyn eu darpariaeth bresennol. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o ysgolion yn teimlo bod y ddarpariaeth yn ddigonol i fodloni anghenion rhieni ar hyn o bryd

# 7. Canlyniadau Arolygon Budd-ddeiliaid a Chyflogwyr

## 7.1 Cyd-destun

Wrth gynnal yr ymgynghoriad holwyd amrywiaeth o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys aelodau etholedig Cyngor Sir y Fflint a'r partneriaid, CWLWM, er mwyn meithrin dealltwriaeth fwy trwyadl o'r ddarpariaeth gofal plant yn y sir. Yn yr arolygon gofynnwyd i'r ymatebwyr roi eu barn ynglŷn ag amrywiaeth o bethau, gan gynnwys hygyrchedd i rai mathau penodol o rieni/teuluoedd, a chynnig syniadau am sut ellid gwella gofal plant yn Sir y Fflint. Holwyd barn cyflogwyr ledled Sir y Fflint hefyd ynglŷn â'r ddarpariaeth gofal plant a'r ffyrdd gorau i'r Cyngor gynorthwyo cyflogwyr i fodloni anghenion rhieni sy'n gweithio.

Bu'r Cyngor hefyd yn ymgynghori â'r swyddog cyswllt yn fforwm y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac mae'n bwriadu dosbarthu arolwg a chynnwys y canlyniadau yn yr ail ddrafft. Mae Cyngor Sir y Fflint hefyd yn cyfrannu at yr wybodaeth a gesglir ar gyfer y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

## 7.2 Arolygon budd-ddeiliaid

Cwblhaodd pump o fudd-ddeiliaid yr arolwg, gan gynnwys dau o ymatebwyr o adrannau awdurdod lleol/sefydliadau/grwpiau eraill, un ohonynt o Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint ac un aelod etholedig. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymgynghori ymhellach ag aelodau etholedig er mwyn sicrhau y cafodd pob un ohonynt gyfle i wneud sylw ynglŷn â gofal plant yn y sir.

O blith y rheiny a ddywedodd eu bod yn perthyn i adran awdurdod lleol/sefydliad/grŵp arall, daeth un o'r ymatebion o Dîm Gofal Plant Cyngor Sir Ddinbych ac un arall o Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrexham.

Holwyd barn budd-ddeiliaid ynglŷn â gofal plant ac ansawdd pob agwedd ar y ddarpariaeth gofal plant yn y sir. Rhestrir eu hymatebion isod. Dim ond unwaith mewn dau o feysydd y nodwyd bod y ddarpariaeth yn wael - ansawdd y ddarpariaeth a darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog. Er gwaethaf hynny, rhoddwyd y mwyaf o sgoriau 'Rhagorol' i ansawdd y ddarpariaeth a'r amrywiaeth o ddarparwyr. Cafodd pob maes sgôr 1 - 'Da' o leiaf. Y meysydd â'r mwyaf o wahaniaeth barn oedd fforddiadwyedd, addasrwydd amserau agor a lleoliad, a hygyrchedd.

| Maes | Rhagorol | Da | Boddhaol | Gwael | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Ansawdd y ddarpariaeth | 2 | 1 | 0 | 1 | 1 |
| Amrywiaeth o ddarparwyr | 2 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Nifer y lleoedd | 1 | 2 | 0 | 0 | 1 |
| Fforddiadwyedd | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 |
| Hyblygrwydd y ddarpariaeth a sesiynau | 1 | 0 | 1 | 0 | 2 |
| Addasrwydd amserau agor | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 |
| Lleoliad a hygyrchedd | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 |

Wrth sôn am bethau oedd yn rhwystro rhieni sy’n gweithio rhag cael gofal plant, cododd y pump o fudd-ddeiliaid amryw o faterion fel y’u nodir yn Siart 17. Roedd y rheiny’n cynnwys prinder darpariaeth gofal plant o ansawdd da, prinder gwahanol fathau o ofal plant fel gwarchodwyr plant a meithrinfeydd dydd, er enghraifft, prinder darpariaeth gofal plant yn gyffredinol a phrinder gofal plant fforddiadwy.

Ymhelaethodd 1 ymatebydd drwy ddweud y dylid cyfuno’r holl lwybrau gofal plant a ddarperir drwy wahanol raglenni Llywodraeth Cymru fel Dechrau’n Deg, y Cynnig Gofal Plant ac Addysg Gynnar, a sicrhau darpariaeth barhaus a di-dor sy’n effeithiol i blant a theuluoedd.

Ceir rhestr isod o’r pethau sy’n rhwystro rhieni sy’n ceisio gwaith neu hyfforddiant rhag cael gofal plant, a darparwyd yr un nifer o ymatebion ymhob maes. Soniwyd eto am sicrhau darpariaeth ddi-dor i blant a theuluoedd.

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Prinder gofal plant o ansawdd da | 1 |
| Prinder gwahanol fathau o ofal plant fel gwarchodwyr plant a meithrinfeydd dydd, er enghraifft | 1 |
| Prinder darpariaeth gofal plant yn gyffredinol | 1 |
| Prinder gofal plant fforddiadwy | 1 |
| Prinder gofal plant hyblyg fel amserau agor hyblyg, er enghraifft | 1 |
| Prinder gofal plant mewn mannau sy’n hygyrch i rieni yn eu hardaloedd lleol | 1 |
| Diffyg gofal plant Cymraeg / dwyieithog | 1 |
| Dim un o’r uchod | 1 |
| Arall – rhowch fanylion | 2 |

I bobl ar aelwydydd di-waith roedd prinder gofal plant fforddiadwy’n rhwystr enbyd, ynghyd â phrinder gofal plant mewn mannau oedd yn hygyrch i rieni yn eu hardaloedd lleol. I deuluoedd ar incwm isel soniwyd am ddiffyg dealltwriaeth o fanteision gofal plant yng nghyswllt datblygiad plant.

I deuluoedd unig rieni, darparwyd un ymateb ymhob pob un o’r meysydd a ganlyn:

- Prinder gwahanol fathau o ddarpariaeth gofal plant
- Prinder gofal plant hyblyg
- Arall

I deuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, darparwyd yr ymatebion a ganlyn:

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Prinder gofal plant o ansawdd da | 0 |
| Prinder gwahanol fathau o ofal plant fel gwarchodwyr plant a meithrinfeydd dydd, er enghraifft | 1 |
| Prinder darpariaeth gofal plant yn gyffredinol | 1 |
| Prinder gofal plant fforddiadwy | 0 |
| Prinder gofal plant hyblyg fel amserau agor hyblyg, er enghraifft | 1 |
| Prinder gofal plant mewn mannau sy'n hygyrch i rieni yn eu hardaloedd lleol | 0 |
| Diffyg gofal plant Cymraeg / dwyieithog | 0 |
| Dim un o'r uchod | 0 |
| Arall – rhowch fanylion | 1 |

Gwelir uchod mai prinder gwahanol fathau o ofal plant, y ddarpariaeth yn gyffredinol a diffyg hyblygrwydd yw'r prif bethau sy'n rhwystro teuluoedd o leiafrifoedd ethnig rhag cael gofal plant. Dywedodd un o'r ymatebwyr fod angen rhoi mwy o bwyslais ar fodloni anghenion arbennig plant a phenodi gweithwyr allweddol i wneud hynny; roedd angen hefyd sicrhau fod yno weithlu medrus wedi'i addasu'n well ar gyfer anghenion unigolion, drwy daliadau uniongyrchol.

I deuluoedd â phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, darparwyd yr ymatebion a ganlyn:

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Prinder gofal plant o ansawdd da | 0 |
| Prinder gwahanol fathau o ofal plant fel gwarchodwyr plant a meithrinfeydd dydd, er enghraifft | 1 |
| Prinder darpariaeth gofal plant yn gyffredinol | 0 |
| Prinder gofal plant fforddiadwy | 1 |
| Prinder gofal plant hyblyg fel amserau agor hyblyg, er enghraifft | 1 |
| Prinder gofal plant mewn mannau sy'n hygyrch i rieni yn eu hardaloedd lleol | 1 |
| Diffyg gofal plant Cymraeg / dwyieithog | 0 |
| Dim un o'r uchod | 1 |
| Arall – rhowch fanylion | 2 |

Gwelir mai prinder gwahanol fathau o ofal plant, fforddiadwyedd, hyblygrwydd a lleoliad yw'r problemau pennaf i deuluoedd â phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Yn olaf, i deuluoedd Cymraeg soniwyd mai prinder gwahanol fathau o ofal plant, diffyg hyblygrwydd a phrinder darpariaeth Gymraeg yn benodol oedd y rhwystrau pennaf rhag cael gofal plant.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am awgrymiadau penodol ynglŷn â sut y gallai gofal plant fodloni anghenion y grwpiau uchod yn well, a dywedodd un fod angen darparu cymorth ychwanegol i rieni er mwyn eu galluogi i ddod o hyd i wybodaeth, gwneud dewisiadau doeth, deall y manteision a gwybod sut beth ydi gofal plant o ansawdd da.

Dywedodd un arall:

*'Mae angen inni feithrin cyswllt â'r grwpiau hyn a gofyn iddynt […] nid fy lle i ydi siarad ar eu rhan nhw ar sail fy nhybiaethau i, byddai'n saffach mynd yn ôl y dystiolaeth.'*

Pan ofynnwyd i bobl a oeddent yn gwybod am y Cynnig Gofal Plant i Gymru, dywedodd tri o ymatebwyr 'Ydw' a gadawyd dau o ymatebion yn wag. Darparwyd yr un faint o ymatebion pan ofynnwyd a oedd yr ymatebwyr yn gwybod am y cynllun Gofal Plant Di-dreth.

Holwyd budd-ddeiliaid a oedd ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â fforddiadwyedd y ddarpariaeth gofal plant yn Sir y Fflint a rhestrir yr ymatebion yn Siart 18. Dywedodd 40% ohonynt 'Nac oes', 20% 'Oes'; ni atebodd 40%.

Ymhelaethodd un ymatebydd drwy ddweud fod prisiau wedi codi bellach yn sgil prinder y ddarpariaeth mewn nifer o ardaloedd ynghyd â galw mawr a llawer iawn o deuluoedd yn gweithio. Dywedodd yr un ymatebydd fod prinder staff wedi gwaethygu pethau mewn rhai lleoliadau a bod a wnelo hynny â chyflogau isel.

Yng nghyswllt hygyrchedd y ddarpariaeth, mynegodd yr ymatebwyr fwy o bryder ynglŷn â rhieni'n cael mynediad at ofal plant (gweler Siart 19).

Ymhelaethodd un ymatebydd drwy ddweud:

*'Mae'r amrywiaeth o amserau agor yn eitha da yn fy marn i, ond tydi gwasgariad daearyddol y lleoliadau ddim cystal.'*

Wrth sôn am bryderon ynglŷn â chynaladwyedd, dywedodd dau o'r pump o ymatebwyr eu bod yn pryderu ynghylch y cyflenwad o ofal plant yn Sir y Fflint. Dywedodd un ymatebydd fod lleoliadau dan bwysau ariannol, a bod rhai ardaloedd gwledig heb lawer o ddarpariaeth neu ddim o gwbl. Amlygodd ymatebydd arall y galwadau ar y sector ar hyn o bryd a'r gyfradd a ddarperid drwy raglenni Llywodraeth Cymru. Soniodd yr un ymatebydd am golli staff yn ogystal â'r drafferth wrth recriwtio a chadw staff ychwanegol; roedd llawer yn ymadael â'r maes gofal plant gan fod sectorau eraill fel manwerthu'n talu cyflogau gwell. Yn Siart 20, gwelir fod 40% o rieni'n pryderu am ofal plant yn yr ardal, a 40% heb unrhyw bryderon.

Pan ofynnwyd a oeddent yn gwybod am unrhyw ostyngiad mewn lleoedd gofal plant yn sgil y pandemig COVID-19, darparwyd yr ymatebion canlynol.

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Nac ydw | 1 |

| | |
|---|---|
| Ydw | 2 |
| Heb ateb | 2 |

O blith y rheiny a ddywedodd ‘Ydw’, soniodd un fod natur ddaearyddol rhai ardaloedd gwledig yn golygu y bu’r lleihad yn waeth yno nag mewn ardaloedd trefol. Soniodd un arall fod adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru wedi crybwyll y lleihad yn y ddarpariaeth, ond gan ddweud fod angen gwell trefn ar gyfer monitro.

Gofynnwyd hefyd a oedd pobl yn gwybod am unrhyw ostyngiad yn nifer y rhieni a ddymunai gael gofal plant wrth weithio gartref. Atebodd un ‘Ydw’ a dywedodd un arall eu bod yn ‘Ansicr’ gan ddarparu’r rhesymau a ganlyn:

- Roedd yr ymatebydd yn ansicr gan nad oedd wedi ymchwilio i weld a oedd COVID-19 wedi dylanwadu ar ddewisiadau rhieni.
- Dywedodd yr ymatebydd arall fod angen i’r awdurdod lleol roi sylw i hynny, gan fod llawer o rieni’n sôn eu bod nhw’n defnyddio llai o ofal plant. Fel gyda’r ymateb uchod, fodd bynnag, pwysleisiwyd nad oedd unrhyw dystiolaeth ffeithiol o hynny ar hyn o bryd.

Pan ofynnwyd i’r ymatebwyr a oeddent yn gwybod am unrhyw broblemau yn y sector gofal plant oherwydd staff yn bod ar ffyrlo yn ystod COVID-19, dywedodd un ymatebydd ‘Ydw’. Soniodd yr ymatebydd dan sylw am orbryder, ansicrwydd hirdymor a chanllawiau Llywodraeth Cymru’n newid yn sydyn.

Gofynnwyd hefyd a oedd yr ymatebwyr yn gwybod am unrhyw broblemau eraill yn deillio o COVID-19 a darparwyd dau o ymatebion:

- *‘Cyfraddau uwch, llai o ddiddordeb mewn dilyn gyrfa ym maes gofal plant, problemau recriwtio cyffredinol, pryder ynglŷn â chydymffurfio â rheoliadau ynglŷn â hylendid a phethau eraill’*
- *‘Brechiadau, profion, pobl ddim eisiau bod i ffwrdd o’r gwaith rhag ofn iddynt golli cyflog’*

Yn olaf, pan ofynnwyd am awgrymiadau am bethau a fedrai hwyluso datblygiad gofal plant mwy cynaliadwy, hygyrch neu fforddiadwy yn Sir y Fflint yn y 12-18 mis nesaf, cafwyd y ddau ymateb a ganlyn. Y rhain oedd:

- Mae angen meithrin gwell dealltwriaeth o’r boblogaeth ac anghenion pobl, gan gynnwys nifer y plant yn Sir y Fflint, nifer y lleoedd gan bob darparwr, map o’r ddarpariaeth a nifer y lleoedd sydd ar gael ar unrhyw adeg benodol.
- Dylai’r awdurdod lleol gynnal arolygon mwy trwyadl â lleoliadau a defnyddwyr gwasanaethau; dylid gwneud hynny drwy grwpiau ffocws, holiaduron electronig ac arolygon dros y ffôn. Yn ogystal â hynny dylid ceisio sampl cynrychioladol a holi pobl yn uniongyrchol, a dibynnu llai ar ofyn i bobl roi barn ar ran pobl eraill.

### 7.3 Arolygon Partneriaid CWLWM

Cwblhaodd pump o ymatebwyr yr arolwg, fel a ganlyn:

- Cymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar
- Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
- Mudiad Meithrin
- Clybiau Plant Cymru
- Blynyddoedd Cynnar Cymru

Holwyd barn budd-ddeiliaid ynglŷn â gofal plant ac ansawdd pob agwedd ar y ddarpariaeth gofal plant yn y sir. Rhestrir eu hymatebion isod. Gwelir fod y mwyafrif o'r ymatebion yn rhai 'Da' ac mai 'Ddim yn gwybod' oedd yr ymateb mwyaf cyffredin wedi hynny, sy'n dangos fod angen codi ymwybyddiaeth budd-ddeiliaid o'r ddarpariaeth gofal plant yn Sir y Fflint. Ni ddisgrifiwyd y ddarpariaeth yn wael mewn unrhyw faes. Rhoddwyd tri sgôr 'Da' yn y rhan helaeth o feysydd a dim ond lleoliad a dwyieithrwydd a gafodd ddau sgôr 'Da' yn unig. Lleoliad oedd yr unig faes lle rhoddwyd sgôr 'Boddhaol' (gweler Tabl 16).

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sylwadau ynglŷn â'r farchnad gofal plant yn Sir y Fflint yng nghyd-destun ansawdd yr holl fathau o ddarpariaeth gofal plant, eu fforddiadwyedd a'r galw amdanynt. Mynegodd y rhan helaeth o'r ymatebwyr bryderon ynglŷn ag effaith COVID-19, incwm isel a'r nifer fach o leoliadau gofal plant oedd wedi cofrestru. Dyma oedd eu sylwadau:

- Mynegodd yr ymatebwyr bryderon ynghylch cynaladwyedd y ddarpariaeth bresennol, gan sôn fod COVID-19 wedi peri i rai darparwyr dynnu'n ôl o ddarparu gofal a gynigid o'r blaen mewn ysgolion, a bod yr ysgolion bellach yn ystyried cynnig y ddarpariaeth eu hunain. Bydd hynny'n cael effaith ar y cyflenwad o ofal plant cofrestredig nes bod y darpariaethau newydd hyn wedi cofrestru.
- Dywedodd yr ymatebwyr hefyd bod COVID-19 a'r dulliau diogelu y mae meithrinfeydd dydd wedi'u mabwysiadu wedi creu gostyngiad sylweddol yn incwm llawer o feithrinfeydd ac wedi creu ansicrwydd am y dyfodol. Mae llawer o leoliadau'n wynebu problemau cynaladwyedd a fydd yn cael effaith ar y cyflenwad o leoedd gofal plant yn y dyfodol. Mae recriwtio'n broblem fawr i'r sector, yn enwedig gyda staff cymwys, ac wrth i'r costau gynyddu mae gofal plant yn mynd yn llai fforddiadwy i rieni. Mynegodd ymatebwyr bryderon hefyd fod perygl y gallai agor lleoliadau newydd mewn ysgolion ddisodli'r lleoedd oedd eisoes yn bodoli mewn meithrinfeydd, gan arwain yn y pen draw at feithrinfeydd yn mynd yn anghynaladwy neu fod teuluoedd plant iau/heb eu hariannu'n ysgwyddo mwy o faich ariannol.
- Dywedodd ymatebwyr eraill fod yno fylchau mawr yn yr ardal. Roeddent yn cydnabod, serch hynny, bod Cyngor Sir y Fflint yn rhoi cefnogaeth ardderchog i ddarparwyr a soniodd llawer ohonynt fod llawer o ddarparwyr gofal plant yn Sir y Fflint yn elusennau, sy'n golygu eu bod yn fwy fforddiadwy a'u bod yn canolbwyntio mwy ar gynaladwyedd a'r gymuned yn hytrach na gwneud elw mawr. Dywedodd yr ymatebwyr yr hoffent weld Cyngor Sir y Fflint yn cefnogi rhai o'r amryw gynlluniau Sicrhau Ansawdd a ddarperid gan rai partneriaid CWLWM, gan fod

y cynlluniau hynny'n annog darparwyr i ystyried elfennau o'u hymarfer a meysydd i fyfyrio mwy yn eu cylch, ac roedd ennill gwobrau drwy'r cynlluniau hyn yn ffordd dda iddynt ddangos prawf o'u hansawdd.
- Yn olaf, soniwyd y bu gostyngiad cyffredinol yn nifer y gwarchodwyr plant yn Sir y Fflint a bod chwech ohonynt wedi dadgofrestru yn y chwe mis rhwng Ebrill 2021 a Medi 2021. Mae prinder cofrestriadau newydd drwy Gymru gyfan wedi gwaethygu pethau; yn Sir y Fflint ni chafwyd yr un cofrestriad newydd yn ystod yr un cyfnod

Pan ofynnwyd am unrhyw bethau penodol y gellid eu gwneud fel bod y ddarpariaeth gofal plant yn bodloni anghenion teuluoedd ar incwm isel yn well, soniodd y rhan helaeth o'r ymatebwyr am yr angen i'r ddarpariaeth fod yn fwy fforddiadwy a bod angen rhoi gwybodaeth i'r grwpiau hyn am y mathau o gymorth ariannol sydd ar gael iddynt. Dyma'r ymatebion mwyaf manwl a gafwyd i'r arolwg:

- Amlygodd yr ymatebwyr fod angen sicrhau fod teuluoedd yn cael gwybod popeth am y mathau o ofal plant a chymorth ariannol sydd ar gael.
- Soniodd yr ymatebwyr y gallai gwarchodwyr plant cofrestredig yn Sir y Fflint ddarparu gofal wedi'i ariannu drwy Dechrau'n Deg. O ganlyniad i hynny gallai teuluoedd mewn ardaloedd tlawd gael mwy o ddewis o leoliadau gofal plant hygyrch a graenus. Mewn rhai amgylchiadau penodol bu modd i warchodwyr plant sicrhau cyllid ar gyfer Addysg Gynnar yn Sir y Fflint os oeddent yn bodloni'r meini prawf. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai darparu arian ar gyfer addysg gynnar i warchodwyr plant yn sicrhau cyfle cyfartal gydol y sector, hybu cynaladwyedd lleoliadau gwarchod plant a rhoi mwy o ddewis i rieni. Byddai hefyd yn debygol o hwyluso gwell canlyniadau i blant drwy ddarparu gofal cyson sy'n bodloni anghenion plant ar sail eu lles.
- Soniodd yr ymatebwyr fod gweithwyr ar gyflogau is yn aml iawn yn gweithio sifftiau ar batrymau afreolaidd, ond fod yno brinder gofal plant cofrestredig ar gyfer yr oriau angenrheidiol; roedd angen gweithio i ddatblygu'r ddarpariaeth sy'n cynnig oriau hyblyg, ei chynnal a'i hyrwyddo.

Pan ofynnwyd am unrhyw bethau penodol y gellid eu gwneud fel bod y ddarpariaeth gofal plant yn bodloni anghenion teuluoedd â phlant ag anableddau'n well, dywedodd y mwyafrif eu bod yn fodlon ar y ddarpariaeth bresennol a dim ond un ymatebydd a soniodd fod angen darparu rhagor o gyllid ar gyfer darpariaethau gofal plant sy'n addas ar gyfer plant ag anghenion cymhleth. Gweler yr ymatebion manwl isod:

- Soniodd yr ymatebwyr fod angen sicrhau fod cyllid a chefnogaeth ar gael i ddatblygu a chynnal darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, yn ogystal â chyllid a chefnogaeth i sicrhau y gall yr holl ddarpariaeth gofal plant fod yn gynhwysol ac yn hygyrch.
- Soniwyd fod Cyngor Sir y Fflint wastad wedi cefnogi plant ag anableddau a/neu anghenion ychwanegol drwy'r cynllun atgyfeirio a thrwy ariannu gweithwyr cefnogi a darparu'r gefnogaeth berthnasol i rieni/gofalwyr ac yn y blaen.

- Roedd yr ymatebwyr hefyd yn croesawu'r system newydd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer plant sy'n iau na'r oedran ysgol ac yn galluogi'r holl ddarparwyr gofal plant i gael gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd yn gynnar gan dîm yr Awdurdod Lleol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y Blynyddoedd Cynnar. Soniodd pobl, serch hynny, yr hoffent gael gwybod mwy am sut mae'r cyfnod pontio'n dod yn ei flaen i warchodwyr plant lleol. Yn ogystal â hynny, awgrymodd yr ymatebwyr y gallai nanis cofrestredig fod yn un ffordd o gefnogi teuluoedd sy'n gweithio, yn enwedig i'r teuluoedd hynny sydd â phlant ag anableddau, gan y byddai'r nanis yn gofalu am blant yn eu cartrefi eu hunain, a byddai rhieni'n dal yn medru cael yr elfen ddi-dreth o'r talebau gofal plant gan eu cyflogwyr.

Pan ofynnwyd am unrhyw bethau penodol y gellid eu gwella fel bod y ddarpariaeth gofal plant yn bodloni anghenion teuluoedd sy'n gweithio'n well, soniodd y rhan helaeth o'r ymatebwyr fod angen cyflenwi digon o leoedd gofal plant. Darparwyd yr ymatebion a ganlyn:

- Soniodd yr ymatebwyr fod angen sicrhau fod digon o leoedd gofal plant ar gael mewn lleoliadau gofal gydol dydd sy'n fwy addas ar gyfer anghenion teuluoedd sy'n gweithio am eu bod yn cyd-fynd â'r diwrnod gwaith arferol
- Dywedodd yr ymatebwyr fod angen sicrhau fod yno ddigon o gyfleoedd am ofal plant cofrestredig o ansawdd da ar gyfer pob oedran (y blynyddoedd cynnar a chyn ysgol, a gofal wedi'i drefnu o gwmpas y diwrnod ysgol i blant hŷn) ac yn yr iaith o ddewis (Cymraeg/Saesneg/dwyieithog - ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg yn enwedig er mwyn cau'r bwlch o 11% yn y ddarpariaeth) i fodloni anghenion rhieni sy'n gweithio a'u plant

Pan ofynnwyd am bethau penodol y gellid eu gwella fel bod y ddarpariaeth gofal plant yn bodloni anghenion teuluoedd sy'n ceisio gwaith/derbyn hyfforddiant yn well, darparwyd yr ymatebion a ganlyn, sy'n bennaf yn sôn fod angen gwell cynlluniau cymorth ariannol.

- Awgrymodd yr ymatebwyr fod Llywodraeth Cymru'n ymchwilio i ehangu'r cynlluniau cymorth ariannol cyfredol fel bod mwy o bobl yn gymwys ar eu cyfer, gan gynnwys rhieni/gofalwyr sy'n ceisio gwaith. Ar ben hynny gellid ymchwilio ymhellach i ehangu'r ystod oedran fel bod mwy o blant yn medru cael gofal plant wedi'i ariannu (fel y Cynnig Gofal Plant, er enghraifft) gan fod hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd gwaith i deuluoedd ar hyn o bryd
- Awgrymodd yr ymatebwyr hefyd y dylai fod mwy o weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill er mwyn creu diddordeb a denu mwy o bobl i fod yn warchodwyr plant, nid yn unig gan y byddai teuluoedd yn cael mwy o ddewis o ofal plant yn lleol ond hefyd gan y byddai'n cynorthwyo pobl i ddychwelyd i'w gwaith
- Awgrymodd yr ymatebwyr hefyd y dylid darparu arian i helpu pobl â chostau gofal plant am gyfnod byr wrth i riant ddechrau swydd newydd.

Yn olaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach ynglŷn â'r mater. Dywedodd y Partneriaid CWLWM:

- Mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn gyfle amserol i ailystyried y cyfyngiad ar y nifer o blant yn lleoliad at ddibenion caniatâd cynllunio. Dywedodd un ymatebydd mai'r fframwaith rheoleiddio gofal plant yw'r dull rheoli priodol ar gyfer pennu'r uchafswm o blant a fedr dderbyn gofal ar y safle, gan gynnwys unrhyw blant sy'n byw yno.
- Mae Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir y Fflint yn gweithio'n dda ac yn darparu amrywiaeth o ffrydiau ariannu i helpu gyda chostau sefydlu, cynaladwyedd, argyfyngau a chynlluniau i gefnogi teuluoedd.
- Er mwyn bodloni anghenion cymunedau mae angen cyfathrebu a chydweithio effeithiol rhwng gofal plant ac addysg. Hoffai'r ymatebwyr weld ymrwymiad parhaus i gydnabod statws proffesiynol y gweithlu yn ogystal ag ystyried ffyrdd o godi cyflogau'n unol â hynny. Mae angen ymdrech ehangach yn lleol a chenedlaethol er mwyn annog pobl i ddilyn gyrfaoedd yn y sector a chynorthwyo i gadw'r rhai hynny sydd eisoes yn gweithio yn y maes.

### 7.4 Holiadur Cyflogwyr

Daw'r cyflogwyr a ymatebodd i'r arolwg o'r meysydd canlynol yn bennaf. Soniodd y rhan helaeth o ymatebwyr eu bod yn dod o 'wasanaethau eraill' ac roedd un ymatebydd yr un o'r meysydd 'Adeiladu', 'Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg ac Iechyd' a 'Thwristiaeth'.

Roedd y rheiny a nododd 'Arall' yn dod o'r sectorau elusennau, dylunio, y gyfraith, manwerthu, peirianneg a thrwsio cerbydau.

Gofynnwyd faint o bobl roedd y cwmni/sefydliad yn eu cyflogi, a dywedodd y mwyafrif o gyflogwyr eu bod yn cyflogi rhwng 0 a 10 o weithwyr ac eithrio un sy'n cyflogi 101-250 o bobl ac un arall sy'n cyflogi 51-100.

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| 0-10 | 8 |
| 11-25 | 3 |
| 26-50 | 2 |
| 51-100 | 1 |
| 101-250 | 1 |
| 250 neu fwy | 2 |

Pan ofynnwyd pa ganran o'r gweithlu'n fras sy'n rhieni/gofalwyr â phlant 12 oed neu iau, cofnodwyd yr ymatebion a ganlyn.

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| 0% | 3 |
| 3% | 1 |
| Llai na 5% | 1 |
| 6% | 1 |

| | |
|---|---|
| 16% | 1 |
| 20% | 1 |
| 25% | 1 |
| 30% | 1 |
| 40% | 1 |
| 50% | 1 |
| 70% | 1 |
| 75% | 1 |
| 95% | 1 |
| Heb nodi gwybodaeth | 1 |

Pan ofynnwyd a oedd eu busnesau'n gweithredu y tu hwnt i oriau 8am-6pm, dywedodd mwy na hanner y busnesau (59%) nad ydynt yn gweithredu'r tu allan i'r oriau hynny a dywedodd 41% fel arall.

Yn ogystal â hynny, gofynnwyd am oriau'r busnesau hynny oedd yn gweithredu y tu hwnt i 8am-6pm a chofnodwyd yr ymatebion a ganlyn.

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| 24 awr y dydd o ddydd Llun i ddydd Iau | 1 |
| 24/7 | 1 |
| 7am tan 7pm | 1 |
| Yn ôl y gofyn | 1 |
| Hyd at 10pm | 1 |

Pan ofynnwyd am drefn waith y staff, darparwyd yr ymatebion a ganlyn:

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Sifftiau | 2 |
| Gyda'r nos | 4 |
| Penwythnosau | 8 |
| Oriau gwirfoddol | 3 |
| Arall | 17 |

Darparwyd y sylwadau ychwanegol a ganlyn:

- *"Rydyn ni'n gweithio tan amser cinio ar ddydd Sadwrn. Ddim ar ddydd Sul."*
- *"Yn ôl y gofyn."*

Wrth sôn am drefniadau gweithio hyblyg, roedd y rhan helaeth o'r busnesau wedi dewis caniatáu i'w staff weithio'n rhan amser, a'r trefniant mwyaf cyffredin wedi hynny oedd gostwng oriau dros dro. Ni soniodd unrhyw fusnes eu bod wedi cynnig hunan-amserlennu.

Soniodd bron i hanner y busnesau (41%) eu bod wedi wynebu anawsterau o bryd i'w gilydd wrth recriwtio a chadw gweithwyr a dim ond 24% a soniodd eu bod wedi cael anawsterau mynych wrth recriwtio a chadw gweithwyr. Dywedodd 35% nad oeddent erioed wedi cael unrhyw drafferth.

Pan ofynnwyd i ba raddau y mae gofal plant yn rhwystr rhag recriwtio a chadw gweithwyr, dywedodd mwy na hanner (53%) na fu hynny'n drafferth erioed. Dim ond 12% o'r cyflogwyr a soniodd eu bod yn wynebu anawsterau mynych oherwydd gofal plant a dywedodd 35% eu bod wedi wynebu rhwystrau o bryd i'w gilydd wrth recriwtio a chadw staff oherwydd gofal plant.

Pan ofynnwyd am absenoldebau staff, soniodd y rhan helaeth o gyflogwyr (71%) y bu staff yn absennol oherwydd gofal plant a dim ond 29% oedd heb gael profiad o hynny.

Yn ogystal â hynny, darparwyd y sylwadau a ganlyn ynglŷn ag absenoldeb staff oherwydd gofal plant:

- *"Yn aml – ac yn fwy felly oherwydd COVID-19 a'r rheolau ynglŷn â hunan-ynysu. Mae rhieni'n aml yn absennol hefyd pan mae eu plant yn sâl."*
- *"Yn aml, ac yn enwedig felly yn ystod gwyliau hanner tymor ac i rieni plant yn eu harddegau cynnar; mae plant 11, 12 a 13 oed yn rhy hen i fod mewn lleoliad gofal plant ond yn rhy ifanc i gael eu gadael ar eu pennau'u hunain drwy'r dydd."*
- *"O bryd i'w gilydd – hunan-ynysu oherwydd COVID-19 neu fod rhyw salwch arall gan blant yn golygu eu bod wedi'u heithrio o leoliadau meithrin/addysg oherwydd rheolau COVID-19."*

Pan ofynnwyd pa agweddau ar y ddarpariaeth gofal plant oedd angen eu gwella er mwyn cynorthwyo â recriwtio a chadw staff, soniodd y rhan helaeth o ymatebwyr fod angen mynediad at wahanol fathau o ddarpariaeth, a dim ond un ymatebydd a soniodd fod angen mwy o ofal plant Cymraeg a darpariaeth sy'n well ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol neu anableddau.

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ar gael ar wahanol adegau (er enghraifft, gyda'r nos/penwythnosau) | 3 |
| Sesiynau mwy hyblyg (addas ar gyfer patrymau sifft, er enghraifft) | 2 |
| Lleoliad gwahanol (er enghraifft, yn nes at adref, yn nes at y gwaith/man astudio, darpariaeth gan y cyflogwr ac yn y blaen) | 2 |
| Gofal plant sy'n well ar gyfer anghenion ychwanegol neu anableddau | 1 |
| Mynediad at fath gwahanol o ofal plant | 5 |
| Gofal plant o well ansawdd | 3 |
| Mwy o ddarpariaeth gofal plant yn Gymraeg | 1 |
| Mwy o ddarpariaeth gofal plant dwyieithog | 2 |

| | |
|---|---|
| Arall | 2 |

O blith yr ymatebwyr hynny a ddymunai gael gofal plant mewn gwahanol leoliadau (er enghraifft, yn nes at adref, yn nes at y gwaith/man astudio, darpariaeth gan y cyflogwr ac yn y blaen), gwnaed y sylw a ganlyn:

- *"Nid oes llawer o ddarparwyr gofal plant yng ngogledd Sir y Fflint yn ôl pob golwg."*

Soniodd yr ymatebwyr hynny a ddymunai gael gwahanol fath o ofal plant fod angen y mathau o ddarpariaeth a ganlyn. Amlygodd y rhan helaeth o'r ymatebwyr fod angen mwy o glybiau gwyliau a chlybiau ar ôl ysgol. Ni soniodd neb fod angen gwarchodwr plant na crèche, sy'n dangos efallai nad oes galw mawr am y darpariaethau hynny ymysg rhieni sy'n gweithio.

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Gwarchodwr Plant | 0 |
| Gofal dydd | 2 |
| Grŵp cyn ysgol neu grŵp chwarae | 1 |
| Dosbarth meithrin mewn ysgol | 1 |
| Crèche | 0 |
| Nani neu *au pair* | 1 |
| Clwb brecwast | 3 |
| Clwb ar ôl ysgol | 4 |
| Clwb gwyliau | 5 |
| Gofal estynedig (er enghraifft, gofal plant wedi'i drefnu o amgylch oriau'r ysgol fel darpariaeth Meithrin a Mwy) | 2 |

Pan ofynnwyd pa fuddion a gynigiai'r cyflogwyr, darparwyd yr ymatebion a ganlyn. Y buddion mwyaf cyffredin yw gofal plant di-dreth a thalebau gofal plant, ac nid oes unrhyw gyflogwyr yn darparu gofal plant yn y gweithle. Soniodd cyflogwyr hefyd eu bod yn ystyried darparu cymhorthdal aberthu cyflog a gwybodaeth am ofal plant fel rhan o'r buddion a gynigir i rieni.

| Ymateb | Darparu ar hyn o bryd | Ystyried darparu | Wedi darparu o'r blaen ond nid mwyach |
|---|---|---|---|
| Talebau gofal plant/gofal plant di-dreth | 4 | 0 | 3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Meithrinfa ar y safle | 0 | 0 | 2 |
| Crèche ar y safle | 0 | 0 | 2 |
| Darpariaeth gwyliau ar y safle | 0 | 0 | 1 |
| Clwb ar ôl ysgol ar y safle | 0 | 0 | 1 |
| Cymorth ariannol â gofal plant | 1 | 0 | 0 |
| Gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant | 1 | 1 | 0 |
| Gwybodaeth am Gredydau Treth Gwaith | 1 | 0 | 1 |
| Cymhorthdal Aberthu Cyflog | 1 | 1 | 0 |
| Arall | 1 | 0 | 1 |

Pan ofynnwyd pa fath o ddarpariaeth/cymhorthdal oedd fwyaf poblogaidd, soniodd y rhan helaeth o ymatebwyr am dalebau gofal plant/gofal plant di-dreth.

Pan ofynnwyd pa ffactorau y credant a fedrai effeithio ar boblogrwydd cyflogwyr â darpar weithwyr, yn seiliedig ar gymhorthdal gofal plant, dywedodd un ymatebydd ei bod yn annhebygol y daw hynny'n broblem byth, a dywedodd un arall y byddai'n well gan bobl gontractau ar gyfer adeg y tymor neu oriau ysgol yn unig.

Pan ofynnwyd a wyddent fod modd iddynt dderbyn cyngor a gwybodaeth ynglŷn â gofal plant a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i rieni a gofalwyr yn rhad ac am ddim gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint, atebodd mwy na hanner (56%) 'Nac ydw' a 44% 'Ydw'. Dywedodd 15 o 16 nad oeddent yn dymuno i Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint gysylltu â hwy i drafod sut y gallant gynnig gwybodaeth ynglŷn â gofal plant a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Yn olaf, pan ofynnwyd am unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â gofal plant yn Sir y Fflint, darparwyd yr ymatebion a ganlyn:

- *"Pennu costau ar gyfer cymhelliant i rieni sy'n gweithio ddychwelyd i'r gwaith!"*
- *"Mwy o ofal plant ar gyfer plant hŷn."*
- *"Y broblem fwyaf â gofal plant yw'r costau. Rydym yn clywed dro ar ôl tro fod gweithwyr ar gyflogau cyffredin yn gadael am fod costau gofal plant yn ddrutach na chostau meithrin.*

*Mae'r cynllun 30 awr wedi bod o gymorth mawr i rieni ond nid oes unrhyw gymorth rhwng genedigaeth a thair blwydd oed, ac mae'r rhan fwyaf o feithrinfeydd yn codi £40 neu fwy. Mwy o arian ar gyfer plant iau er mwyn annog mamau i ddal i weithio."*

### 7.5 Arolwg y tîm cyflogadwyedd

Cynhaliodd Cyngor Sir y Fflint arolwg gyda Thimau Cyflogadwyedd yr awdurdod lleol er mwyn meithrin dealltwriaeth o ofal plant ledled y sir. Derbyniwyd un ymateb i'r arolwg.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oes digon o ofal plant ar gael yn Sir y Fflint i fodloni anghenion y grwpiau canlynol, yn eu barn hwy:

| Math | Oes | Nac oes | Ddim yn siŵr | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Rhieni sy'n gweithio | | X | | Mae digon o ofal ar gael yn ystod y tymor ond nid yn ystod gwyliau ysgol |
| Rhieni sy'n ceisio gwaith neu hyfforddiant | | X | | Mae meithrinfeydd yn gyndyn o gynnig lle am ddiwrnod neu ddau bob wythnos os yw cwrs hyfforddiant yn un byr. |
| Aelwydydd di-waith | X | | | Cyn belled â bod pobl yn byw mewn ardal â chod post Dechrau'n Deg |
| Teuluoedd ar incwm isel | X | | | Dim |
| Rhieni sengl | X | | | Dim |
| Teuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol | | | X | Dim |
| Teuluoedd â phlant ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol | | | X | Dim |
| Teuluoedd Cymraeg | X | | | Dim |

Roedd yr ymatebydd yn gwybod am Ofal Plant Di-dreth yn ogystal â'r Cynnig Gofal Plant i Gymru ond ni chredai fod y Cynnig wedi helpu teuluoedd di0waith â phlant 3-4 oed i gael gwaith. Ymhelaethodd yr ymatebydd drwy egluro:

*'Ar hyn o bryd does dim lle mewn meithrinfeydd lleol yn y Fflint a dim lleoedd gan warchodwyr plant, ac felly nid oes modd i riant plentyn tair blwydd oed weithio.'*

Wrth sôn am y rhwystrau pennaf rhag cael gofal plant, nodwyd mai'r costau cychwynnol oedd y broblem fwyaf.

Pan ofynnwyd a oedd rhieni wedi mynegi unrhyw bryderon i'r ymatebydd yn ystod COVID-19 am gael gofal plant neu waith, soniwyd y bu pryderon ar y dechrau am blant yn cymysgu, ond fod neb yn sôn am 'swigod' bellach a bod rhieni heb fynegi unrhyw bryderon yn ddiweddar.

Holwyd barn y tîm Cyflogadwyedd ynglŷn â gofal plant ac ansawdd pob agwedd ar y ddarpariaeth gofal plant yn y sir. Rhestrir yr ymatebion isod.

| Maes | Rhagorol | Da | Boddhaol | Gwael | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Ansawdd y ddarpariaeth | X | | | | |
| Amrywiaeth o ddarparwyr | | | X | | |
| Nifer y lleoedd | | | | X | |
| Fforddiadwyedd | | | X | | |
| Hyblygrwydd y ddarpariaeth a sesiynau | | | | X | |
| Addasrwydd amserau agor | | | X | | |
| Lleoliad a hygyrchedd y gofal plant | | | X | | |
| Dwyieithog/Cymraeg | | | X | | |

Gwelir mai 'boddhaol' yw'r ddarpariaeth yn y rhan helaeth o feysydd yn Sir y Fflint ac mai dim ond ansawdd y ddarpariaeth a nodwyd yn 'Rhagorol'. Mae nifer y lleoedd a hyblygrwydd y ddarpariaeth yn 'Wael'.

Pan ofynnwyd pa bethau y gellid eu gwella ym maes gofal plant yn Sir y Fflint, dywedodd yr ymatebydd y byddai'n fuddiol cael mwy o glybiau gwyliau.

Yn olaf, dywedodd yr ymatebydd eu bod yn defnyddio Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint i gael gwybodaeth am y dewisiadau gofal plant i'w cleientiaid.

### 7.6 Canfyddiadau allweddol gan fudd-ddeiliaid a chyflogwyr

- At ei gilydd mae gan fudd-ddeiliaid farn gadarnhaol o'r ddarpariaeth gofal plant, yn enwedig wrth sôn am ansawdd y ddarpariaeth a'r amrywiaeth o ddarparwyr. Mynegwyd pryderon, serch hynny, ynglŷn â darpariaeth ddwyieithog a Chymraeg, yn ogystal â fforddiadwyedd a hyblygrwydd y ddarpariaeth. Byddai cael mynediad at wahanol fathau o ddarpariaeth yn arbennig o fuddiol i rieni, yn ôl y cyflogwyr
- Mae trafferthion ariannol ac amryw broblemau staffio'n bygwth cynaladwyedd y ddarpariaeth ledled Sir y Fflint. Rhoddwyd clod i'r awdurdod lleol, fodd bynnag, am y gefnogaeth y mae'n ei darparu.
- Creda rhai budd-ddeiliaid y dylid ymgynghori'n fwy helaeth â rhieni, yn enwedig y rhai hynny sy'n wynebu rhwystrau rhag cael gofal plant. Dylid hefyd rhoi mwy o gymorth a gwybodaeth i rieni er mwyn sicrhau y gallant drefnu'r ddarpariaeth angenrheidiol.
- Dylid annog cyflogwyr i helpu eu gweithwyr drwy gyfeirio at Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint (GGD), gan fod 15 o bob 16 cyflogwr yn dweud 'nad ydynt am i GGD gysylltu â nhw' – felly efallai na fydd eu staff yn ymwybodol o GGD o ganlyniad.

- Mae angen i’r awdurdod lleol fod yn fwy rhagweithiol wrth hyrwyddo ymgyrchoedd recriwtio ym maes gofal plant, gan roi pwyslais penodol ar warchod plant.
- Mae gofyn hefyd am ddarpariaeth benodol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a staff wedi’u hyfforddi’n addas er mwyn cefnogi rhieni’n well.
- Soniodd bron i hanner y busnesau (41%) eu bod wedi wynebu anawsterau o bryd i’w gilydd wrth recriwtio a chadw gweithwyr a dim ond 24% a soniodd eu bod wedi cael anawsterau mynych wrth recriwtio a chadw gweithwyr. Dywedodd 35% nad oeddent erioed wedi cael unrhyw drafferth. Pan ofynnwyd am absenoldebau staff, soniodd y rhan helaeth o gyflogwyr (71%) y bu staff yn absennol oherwydd gofal plant a dim ond 29% oedd heb gael profiad o hynny
- Mae angen am gydweithio a chyfathrebu mwy effeithiol rhwng gofal plant ac addysg.

# 8. Dadansoddiad o'r Bylchau a Meysydd ar gyfer Gwella

## 8.1 Bylchau sy'n dod i'r amlwg

**Darpariaeth o ansawdd uchel lle mae'r costau'n mynd yn rhy ddrud i rai rhieni**

Er bod mwyafrif llethol o rieni/gofalwyr ledled Sir y Fflint o'r farn bod y ddarpariaeth gofal plant yn dda iawn, roedd llawer o rieni'n gweld y ddarpariaeth yn ddrud. Mae costau gofal plant yn arbennig o ddrud yn Ardaloedd Cymunedol 5 a 7. Gallai hynny effeithio ar deuluoedd o gefndiroedd difreintiedig yn benodol. Er bod rhieni wedi sôn fod gofal plant yn ddrud, dywedodd y mwyafrif llethol o ddarparwyr fod rhieni eisoes yn defnyddio Gofal Plant Di-dreth a Thalebau Gofal Plant. Mae'r rhan helaeth o ddarparwyr gofal plant yn darparu'r Cynnig Gofal Plant i blant 3-4 oed ac mae 33 o ddarparwyr gofal plant yn Sir y Fflint yn darparu lleoedd Dechrau'n Deg. Soniodd y mwyafrif o rieni, fodd bynnag, nad oeddent yn medru cael darpariaeth Dechrau'n Deg gan nad oeddent yn byw yn un o'r ardaloedd cymwys.

**Nifer helaeth o leoedd gwag ond dim digon o oriau**

Ar hyn o bryd mae mwy na 5,000 o leoedd gwag ar gyfer gofal plant yn Sir y Fflint, yn enwedig mewn gofal dydd llawn a chlybiau ar ôl ysgol. Ychydig iawn o ddarparwyr, fodd bynnag, sy'n cynnig gofal plant cyn 7:30am neu ar ôl 6pm, ac nid oes digon ar gael yn ystod gwyliau ysgol. Soniodd rhieni hefyd am brinder y ddarpariaeth yn ystod y gwyliau ac o amgylch y diwrnod ysgol, sy'n ei gwneud yn anodd iddynt barhau â'u patrymau gwaith arferol neu ddal ati mewn swydd lawn-amser.

**Effaith y pandemig**

Dywedodd llawer o ddarparwyr na fedrent gael hyfforddiant yn ystod y pandemig a chredai bron i un o bob deg ohonynt na fyddai modd iddynt gynnal eu busnesau ond am chwe mis arall. Roedd llawer o ddarparwyr yn ansicr am gynaladwyedd eu darpariaeth gofal plant yn y dyfodol. Soniodd plant a phobl ifanc hefyd am effaith y pandemig ar eu clybiau ar ôl ysgol. Bydd pob sector yn teimlo effaith y pandemig am beth amser eto, ac efallai y bydd ar ddarparwyr angen mynediad at hyfforddiant ychwanegol neu gyllid er mwyn sicrhau nad yw hyn yn amharu ar y sector gofal plant yn Sir y Fflint.

**Prinder darpariaeth Gymraeg**

Dim ond 4.3% o'r darparwyr yn Sir y Fflint sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg ar hyn o bryd, a hynny mewn dim ond saith o wardiau. Soniodd y darparwyr hefyd fod llai nag 20% o'u staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl a bod llai na 40% yn medru rhywfaint o Gymraeg. Gallai hynny beri rhwystr rhag cael gofal plant i deuluoedd Cymraeg sy'n byw y tu allan i'r saith o wardiau dan sylw.

## 8.2 Camau gweithredu awgrymedig

Awgrymwyd nifer o gamau gweithredu allweddol ar sail y bylchau sy'n dod i'r amlwg, a manylir yn eu cylch yn y Cynllun Gweithredu isod.

## 9. Cynllun Gweithredu

| Ffrwd Waith | Hygyrchedd | | |
|---|---|---|---|
| **Pam fod angen hyn?** | Er bod mwyafrif llethol o rieni/gofalwyr ledled Sir y Fflint o'r farn bod y ddarpariaeth gofal plant yn dda iawn, roedd llawer o rieni'n gweld y ddarpariaeth yn ddrud. Mae costau gofal plant yn arbennig o ddrud yn Ardaloedd Cymunedol 5 a 7. Gallai hynny effeithio ar deuluoedd o gefndiroedd difreintiedig yn benodol. | | |
| **Math o Gynllun** | **Disgrifiad** | **Graddfa Amser** | **Maes/Unigolyn Cyfrifol** |
